# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO** | **AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 11 RHAGFYR 2013 am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 11 DECEMBER, 2013 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Llafur / Labour**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), John Griffith a Vaughan Hughes

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair) a Raymond Jones

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 24 MEDI, 2013** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofonodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **RHEOLI GWYBODAETH** (Tudalennau 9 - 10)

Derbyn adborth ynglyn â'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth.

4 **UNED CYNNAL A CHADW TAI** (Tudalennau 11 - 44)

Derbyn diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ynglyn â chynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

5 **PROSIECT CYFALAF TAIR TREF** (Tudalennau 45 - 48)

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy ynglyn â'r Prosiect Cyfalaf Tair Tref.

6 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 49 - 52)

Derbyn diweddariad gan Archwilio Allanol ynglyn â gwaith perfformiad *(Adroddiad Saesneg yn unig)*

7 **ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2012/13** (Tudalennau 53 - 56)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol am 2012/13 *(Adroddiad Saesneg yn unig).*

8 **TREFNIADAU LLYWODRAETHU A SICRWYDD** (Tudalennau 57 - 72)

Derbyn diweddariad ynglyn â threfniadau Llywodraethu a Sicrwydd.

9 **FRAMWAITH RHEOLI RISG A'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

Derbyn diweddariad ar lafar.

10 **ADOLYGIAD O BENODIAD AELODAU ANNIBYNNOL** (Tudalennau 73 - 74)

Derbyn adroddiad ynglyn â'r uchod.

11 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 75 - 88)

Derbyn adroddiad cynnydd ar waith Archwilio Mewnol.

**12 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL** (Tudalennau 89 - 102)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â’r uchod.

**13 CYFARFOD NESAF**

2:00 o’r gloch y prynhawn, dydd Mawrth, 4 Chwefror, 2014.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Dafydd Thomas, P.S.Rogers<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Uchel Archwilydd (EW)<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (JJ) (i eitem 6)<br>Cyfrifydd Grŵp (SM)<br>Cyfrifydd – Rheoli Cyfalaf a Thrysorlys (BD)<br>Cymhorthydd Cyfrifo (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd Raymond Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd H.Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Mr Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol – Cyngor Gwynedd) (ar gyfer eitem 3), Lyn Pamment (PwC), Andy Bruce (SAC) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nododd y rhai canlynol ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen –

Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes ar sail aelodaeth ei wraig o'r

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dywedodd y Cynghorydd Hughes ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol ar y mater a thra y byddai yn cymryd rhan yn y drafodaeth roedd wedi penderfynu na fyddai'n pleidleisio ar unrhyw benderfyniad a allai godi ar y mater.

Y Cynghorydd H.Eifion Jones ar y sail ei fod yn Aelod o Gronfa Bensiwn.

Y Cynghorydd John Griffith ar y sail ei fod yn aelod o'r Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol oherwydd ei broffesiwn blaenorol.

Mrs Sharon Warnes ar y sail ei bod yn derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol.

Dywedodd y Cadeirydd bod Aelodau Etholedig wedi bod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ers ychydig o flynyddoedd ac mai'r cyngor cyfreithiol oedd y gallent gymryd rhan yn y drafodaeth ar eitem 3.

**2 COFNODION Y CYFARFOD AR 23 GORFFENNAF 2013**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2013.

Materion yn codi –

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor a chytunwyd wedi hynny y byddai'r Pennaeth Gwasanaeth Tai yn cyflwyno ei diweddariad ar gynnydd gyda materion llywodraethu mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2013.



DRAFT

- Yng nghyswllt yr adroddiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar ganlyniad yr archwiliad o drefniadau'r Cyngor yng nghyswllt prosesu data personol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, dywedodd y Rheolwr Archwilio wrth y Pwyllgor nad oedd y fersiwn derfynol o'r adroddiad wedi ei derbyn mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwn ac awgrymodd bod gwahoddiad yn cael ei ymestyn i Archwilwyr y Comisiynydd Gwybodaeth i fynychu cyfarfod mis Rhagfyr 2013 o'r Pwyllgor Archwilio i gyflwyno eu canfyddiadau ac fe fyddai hynny hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod ffurfio ymateb i unrhyw argymhellion fyddai'n codi o'r adroddiad terfynol. Dywedodd y Swyddog hefyd bod Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth wedi ei sefydlu a'i ymgynnull a chanlyniad hynny oedd bod cynllun gweithredu yn seiliedig ar adroddiad drafft y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cael ei lunio. Roedd gwaith wedi cychwyn felly ar y mater hwn ac yn mynd yn ei flaen. Nododd yr Aelodau y sefyllfa.

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI –**

- **Y Rheolwr Archwilio i gadarnhau gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Tai y byddai'n bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Rhagfyr 2013 i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd gyda materion llywodraethu mewn perthynas â'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau.**
- **Y Rheolwr Archwilio i gysylltu gyda'r Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol gyda golwg ar wneud trefniadau i'r archwilwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fynychu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Rhagfyr 2013 i roi atborth ar yr archwiliad o drefniadau'r Cyngor yn prosesu data personol.**

**3 CRONFA BENSIWN LLYWODRAETH LEOL GWYNEDD**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Dilwyn Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda Chyngor Gwynedd i'r cyfarfod a rhoddodd wahoddiad iddo annerch y Pwyllgor Archwilio ar y sefyllfa gyda'r Gronfa Bensiwn ac yn benodol, y cynnydd o £18.4m yn ystod 2012/13 yn y rhwymedigaeth pensiwn net o £63.7m i £83.1m a goblygiadau hynny.

Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor, eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol beirianwaith y sustem Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol a sut mae'n gweithio, ac fe amlygodd yr ystyriaethau a'r ffactorau allweddol wrth roi sylw i faterion mewn perthynas â pherfformiad y Gronfa Bensiwn:

I ddilyn cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb lle roddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Dyma grynodeb o rai o'r materion a godwyd:

- Perfformiad y gronfa bensiwn yn erbyn y meincnod ac o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â safle isel y gronfa o ran ei pherfformiad mewn blynyddoedd diweddar o'i chymharu ag awdurdodau eraill a beth oedd y rhesymau am y perfformiad gwan yn ddiweddar.
- Yng ngoleuni'r ffaith bod rhwymedigaeth y pensiwn mewn gwirionedd yn rhwymedigaeth i drethdalwyr yr Ynys, oni ddylai Aelodau ac Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn arbennig fod yn fwy rhagweithiol gyda rheolaeth y gronfa bensiwn er mwyn ceisio sicrhau'r perfformiad a'r dychweliadau gorau posibl.
- Cynigiwyd a chymeradwywyd bod y Pwyllgor Archwilio, a hynny er mwyn atgyfnerthu ei fwriadau monitro, yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd yn y man a bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn i'w drefnu ar ôl y cyfarfod Blynyddol o Fwrdd Rheoli'r Gronfa Bensiwn fel y gall cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor Cronfa Bensiwn adrodd yn ôl ar unrhyw faterion fyddai'n codi o'r Cyfarfod Blynyddol.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd bod hirhoedledd a disgwyliad bywyd yn ffactorau allweddol mewn perthynas â pherfformiad y gronfa bensiwn a bod buddsoddiadau yn y gronfa bensiwn yn rhywbeth a wneir am yr hir dymor ac am y rhesymau a roddwyd yn y cyflwyniad ac ni ddylid ffurfio barn ar y perfformiad ar ffigyrau deilliannau un flwyddyn yn unig. Roedd y Deilydd Portffolio Cyllid fel cynrychiolydd yr Awdurdod hwn ar Bwyllgor Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd yn cyd-fynd â'r sylwadau a wnaed yn y cyflwyniad ynglŷn â'r ffactorau

oedd yn dylanwadu ar berfformiad y gronfa bensiwn ac eglurodd i'r Aelodau y trefniadau adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli'r Gronfa Bensiwn am berfformiad y Gronfa.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ynglŷn â sefyllfa Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd a hefyd ddiolch i Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd am y cyflwyniad.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd ar raglen waith flynyddol y Pwyllgor Archwilio gyda sylw arbennig i raglennu er mwyn caniatáu i gynrychiolydd yr Awdurdod ar y Pwyllgor Cronfa Bensiwn roi atborth i'r Pwyllgor o'r Cyfarfod Blynyddol.**

**4 DATGANIAD O GYFRIFON 2012/13 A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn cynnwys Datganiad o Gyfrifon 2012/13 a hefyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif faterion oedd yn codi o'r archwiliad cyfrifon yn cynnwys cyfeiriad at y meysydd lle'r oedd y newidiadau sylweddol yn y cyfrifon yn berthnasol ynghyd â fersiwn wedi'i diweddaru o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r newidiadau iddo yn dilyn cyflwyno'r drafft i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad roedd dadansoddiad o gyllid y Rhaglen 3 Tref fel yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn am hynny yn ei gyfarfod blaenorol ym mis Gorffennaf.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau ) wrth y Pwyllgor bod cyfrifon drafft y Cyngor Sir wedi eu cyflwyno i'w archwilio ar 28 Mehefin hynny ar-lein ac o fewn yr amser cau statudol. Roedd y cyfrifon a wnaed ar gael i'r Pwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod hwn yn cynnwys newidiadau a wnaed fel rhan o'r broses archwilio. Fodd bynnag, ers yr amser hwnnw fe gafwyd newidiadau ychwanegol yn arbennig o ganlyniad i waith archwilio Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd oedd wedi dangos gwahaniaethau rhwng y nifer o aelodau gweithredol a rhai a ohiriwyd o fewn y cynllun rhwng Chwefror ac Awst 2013 ac fe allai hynny gael effaith fawr ar werth rhwymedigaeth y pensiwn o fewn cyfrifon 2012/13. Roedd y cyfrifon wedi eu newid i adlewyrchu hynny ac roedd fersiwn newydd wedi ei pharatoi ac roedd honno ar gael ar-lein ynghynt yn y dydd. Achoswyd peth oedi oherwydd bod y swyddog arweiniol wedi gadael ddechrau mis Medi a hefyd oherwydd bod y prif Gyfrifydd ar ei wyliau ar y pryd gyda hynny oll yn golygu iddi fod yn her fawr i gasglu'r holl wybodaeth a'i gynnwys yn y cyfrifon terfynol. Yn dilyn yr archwiliad, bydd cyfarfod di-briffio'n cael ei gynnal gyda'r Archwilwyr i adolygu nifer y newidiadau i gyfrifon 2012/13 gyda golwg ar wella'r broses o baratoi'r cyfrifon ymhellach ar gyfer y flwyddyn nesaf .

- Cyflwynwyd hefyd adroddiad Archwilio Allanol yn nodi'r materion oedd yn codi o archwilio Datganiadau Ariannol Cyngor Sir Ynys Môn 2012/13 ac sydd angen eu hadrodd o dan ISA 260.

  Dywedodd Mrs Lyn Pamment, Partner Ymgysylltu , PwC wrth yr Aelodau bod nifer o faterion nad oeddid wedi delio a hwy ar adeg ysgrifennu'r ISA260 a hynny mewn perthynas â'r archwiliad oedd i'w gweld yn adran 6 yr adroddiad. Aeth yr Archwilydd ymlaen i roi gerbron lythyr oedd yn rhoi diweddariad ar bob un o'r gweithdrefnau archwilio a nodwyd fel rhai oedd ar ôl yn adran 6 ynghyd â'r canlyniadau. Ar adeg cyflwyno'r adroddiad ISA 260 roedd yr Archwilydd a benodwyd yn ystyried ei farn archwilio ar y datganiadau ariannol tra'n disgwyl am ddatrys y materion a nodwyd ynglyn â phrisio rhwymedigaeth y pensiwn yn y Datganiad o Gyfrifon. Oherwydd i'r rhain gael sylw erbyn hyn a chyda'r cyfrifon wedi eu newid i adlewyrchu hynny fel oedd yn cael ei nodi yn y llythyr diweddaru ac er boddhad yr archwilwyr o safbwynt nad oedd unrhyw risg o gamddatganiad arall o bwys ar ôl yn hyn o beth, roedd yr Archwilydd a benodwyd yn bwriadu rhoi barn ddiamod ar y Datganiad Cyfrifon 2012/13.

  Aeth yr Archwilydd wedyn ymlaen i nodi rhai materion arwyddocaol eraill oedd yn codi o'r archwiliad a gofynnwyd i'r Pwyllgor eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol fel a ganlyn -

  - Camddatganiadau oedd heb eu cywiro ac a nodwyd yn y datganiadau ariannol fel oedd yn adran 10 yr adroddiad a'r llythyr diweddaru a gwerth hynny. Roedd y rhain wedi eu trafod gyda'r rheolwyr ond maent yn parhau heb eu cywiro. Os mai'r penderfyniad fydd peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn yna gofynnir i'r Awdurdod roi rhesymau dros beidio â'u cywiro.

DRAFT

- Camddatganiadau a gywirwyd fel oedd i'w gweld yn Atodiad 3 yr adroddiad a'r llythyr diweddaru oedd yn son am faterion oedd wedi eu cywiro gan reolwyr ond yr ystyrir y dylid eu dwyn i sylw rhai sydd â gofal o lywodraethu, a'r rhai mwyaf arwyddocaol oedd y rhai mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir ag ad-daliadau mewnol yn y cyfrifon.
- Risgiau archwilio arwyddocaol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad a chan ganlyniadau'r gweithdrefnau archwilio yng nghyswllt y risgiau oedd wedi eu nodi ym mharagraff 12 yr adroddiad.
- Gweithdrefnau archwilio a wnaed mewn perthynas â'r meysydd canlynol oedd yn destun risg amcangyfrif:

  - Gwerth asedau sefydlog
  - Arfarnu Swyddi a rhwymedigaethau tâl cyfartal
  - Y ddarpariaeth gwastraff
  - Rhwymedigaethau Arfarnu Swyddi a thâl cyfartal
  - Pensiynau – cyfeiriodd yr Archwilwyr yn benodol at y llythyr oedd wedi ei roi gerbron oedd yn rhoi diweddariad ar y newidiadau a wnaed gan reolwyr i gywiro'r sefyllfa mewn perthynas â'r ddarpariaeth IAS19 yn y cyfrifon.

- Materion arwyddocaol eraill oedd yn codi o'r archwiliad ac wedi ei gyfyngu i'r cam yn y broses adrodd ariannol fel oedd yn cael ei egluro o dan adran 38 yr adroddiad.

  Tynnodd yr Archwilydd sylw'r Aelodau at un mater arall oedd wedi ei nodi yn y llythyr diweddaru a hynny mewn perthynas â'r pwysau oedd yn cael ei roi ar y tîm ariannol yn ystod cyfnod terfynol y broses o gynhyrchu'r cyfrifon i gynhyrchu drafft terfynol cwyn Côd CIPFA o'r Datganiad Cyfrifon mewn da bryd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a'r angen wedi hynny i roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan y tîm ariannol ddigon o adnoddau priodol o ran sgiliau wrth fynd ymlaen.

  Yn y drafodaeth a ddilynodd, ceisiodd Aelodau'r Pwyllgor gael eglurhad ar nifer o bwyntiau yn ymwneud â'r materion canlynol a rhoddodd y Swyddogion a'r Archwilwyr wybodaeth ac eglurhad pellach:

  - Gan gyfeirio at y camgymeriadau a nodwyd trwy samplo lle'r oedd potensial o gael camgymeriadau pellach pe bai profion mwy eang wedi eu gwneud.
  - Y camddatganiad o bwys a nodwyd mewn perthynas â'r trosolwg o'r gwaith o gynhyrchu'r cyfrifon, sef camddatganiad sylweddol, ac a oedd hynny wedi digwydd yn unig oherwydd diffyg gwaith sgriwtineiddio manylach cyn yr archwiliad.
  - A yw'n amserol ystyried cryfhau'r Tîm Cyllid ai peidio yn wyneb yr anhawster a nodwyd o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y tîm hwnnw.
  - Rhwymedigaethau mewn perthynas â Thâl Cyfartal a'r Cynllun Arfarnu Swyddi ac a oedd y trefniadau wrth gefn a wnaed yn ddigonol i gwrdd ag unrhyw amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld.
  - Llithriad ar y rhaglen 3 tref a digonolrwydd y trefniadau trosolwg mewn perthynas â sicrhau amseroldeb y gwariant ar raglenni o'r fath, yn ogystal â'u gwerth am arian, yn arbennig o ran atebolrwydd. Awgrymwyd a chytunwyd y dylid gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth Datblygu Economaidd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn i esbonio'r broses grantiau mewn perthynas â threfniadau monitro, gan sicrhau bod gwariant ar y grantiau yn darparu gwerth am arian a bod rhaglenni grant a gwariant arnynt yn cael yr effaith a ddymunir, gan gyfeirio'n benodol at y rhaglen 3 Tref.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 26 Medi, ei fod yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon, gan gynnwys y newidiadau yr adroddwyd arnynt gan yr Archwilwyr Allanol i'r Pwyllgor Archwilio hwn ac yn amodol ar dderbyn cadarnhad gan yr Archwilwyr Allanol trwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y broses adolygu cyfrifon wedi ei chwblhau'n derfynol**.

- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012/13 a chyfeirio'r ddogfen i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w harwyddo.**

**MATERION YN CODI:**

- **Bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cadarnhau gyda'r Cyngor llawn ar 26 Medi fod yr Archwilwyr Allanol wedi cadarnhau bod eu hadolygiad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.**
- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth (Datblygu Economaidd) i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i egluro'r trefniadau trosolwg ac atebolrwydd mewn perthynas â'r proses grantiau gan gyfeirio'n benodol at y Rhaglen 3 Tref.**

**5 ARCHWILWYR ALLANOL – RHAGLEN WAITH AR GYFER PERFFORMIAD**

- Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Mr Andy Bruce, SAC ynghylch statws yr eitemau ar y Rhaglen Waith Perfformiad, ynghyd â'r cynnydd a wnaed, a hynny ar lefel genedlaethol ac ar lefel sy'n benodol i Ynys Môn. Derbyniodd a nododd yr Aelodau y wybodaeth a gyflwynwyd.

- Cyflwynodd Mr. Andy Bruce Lythyr Asesiad Gwella 1 yr Archwiliwr a Benodwyd er sylw'r Pwyllgor. Roedd y llythyr yn cynnwys asesiad cychwynnol ynghylch a oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau a chwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009, yn arbennig mewn perthynas â chynllunio gwelliant a gwneud trefniadau ar gyfer gwelliannau parhaus, gan gynnwys y cynnydd a wnaed ar argymhellion a nodwyd mewn asesiadau blaenorol a rhoi sylw i heriau ariannol. Byddai Llythyr diweddaru pellach yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Tachwedd 2013.

  Aeth Mr Andy Bruce rhagddo i amlygu ac ymhelaethu ar gasgliadau'r Archwiliwr a Benodwyd fel y'u hamlinellwyd yn y Llythyr Asesiad.

  Rhoddodd yr Aelodau sylw i gynnwys y Llythyr a gwnaed pwynt ynghylch digonolrwydd trefniadau sgriwtini'r Awdurdod yn dilyn gostwng nifer y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2. Dywedodd Mr. Andy Bruce bod ansawdd a chynnwys trafodaethau sgriwtini yn ystyriaethau allweddol ac y gall sgriwtini fod yr un mor effeithiol os nad yn fwy effeithiol gyda llai o grwpiau sgriwtini.

**Penderfynwyd derbyn y Llythyr Asesu Gwelliant a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**6 RHEOLI RISG AC YSWIRIANT**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gweithredu fframwaith rheoli risg a hefyd sefyllfa ddiweddaraf hawliadau yswiriant.

Dywedodd y Rheolydd Risg ac Yswiriant wrth yr Aelodau bod y Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau Rheoli Risg yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dros y 12 mis diwethaf yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac i'r strwythur rheoli sef prosesau sy'n rhoi cyfle i newid yr hyn yr adroddir arno i'r Aelodau. O ganlyniad, cynigir y mai dim ond y prif risgiau ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r risgiau corfforaethol eraill y bydd yr Aelodau yn cael adroddiad arnynt, ynghyd â'r cynnydd gydag unrhyw gamau i liniaru'r risgiau hynny. Enghraifft o'r dull adrodd arfaethedig newydd hwn yw'r fersiwn gynilach o'r Gofrestr Risg yn Atodiad A i'r adroddiad sy'n adlewyrchu'r prif risgiau yn unig a'r camau lliniarol cysylltiedig.

Croesawodd yr Aelodau'r ffurf newydd ar gyfer y Gofrestr Risg fel cyfrwng mwy ystyrlon i'r Pwyllgor Archwilio fedru monitro'r sefyllfa risg a'r camau y byddai'n rhaid eu cymryd ar gyfer y prif risgiau corfforaethol, gyda'r amod bod y gofrestr yn cynnwys gwybodaeth am gamau lliniarol ac amserlenni ar gyfer yr holl risgiau y tynnwyd sylw atynt, a bod sylwebaeth eglurhaol hefyd yn cael ei darparu mewn perthynas ag unrhyw symudiadau risg fel bod modd i'r Aelodau ddod i gasgliadau synhwyrol.



DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r ffurf newydd ar gyfer adrodd ar risgiau.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI.**

**7 ADRODDIAD GWAITH GAN YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD EBRILL I AWST 2013**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Awst 2013.Tynnodd y Rheolydd Archwilio sylw'r Pwyllgor at brif ystyriaethau'r adroddiad o ran perfformiad, canlyniadau ac allbynnau.

Yn y drafodaeth ddilynol, canolbwyntiwyd ar weithredu argymhellion mewn perthynas ag ysgolion ac a yw hyn yn achos o geisio archwilio system y mae angen ei hadolygu, o gofio'r materion sy'n codi dro ar ôl tro mewn perthynas ag agweddau ar reolaeth ariannol yn yr ysgolion. Soniwyd am bwynt trafod blaenorol mewn perthynas â rhoi adnoddau i ysgolion i reoli a rhoi sylw i systemau ariannol, gan ostwng y pwysau ar staff ysgol yn y cyswllt hwn ac fel bod modd i Archwilwyr Allanol wneud eu gwaith archwilio heb ymgymryd â rôl ymgynghorol hefyd. Esboniodd y Rheolydd Archwilio fod y rhestr wirio ar gyfer gwaith archwilio yn yr ysgolion yn gyfyngedig o ran ei sgôp ac nad yw ond yn edrych ar drefniadau llywodraethiant a rheolaeth ariannol allweddol - mae sylw'n cael ei roi i gryfhau'r rhestr wirio i gynnwys mwy o ddangosyddion ariannol. Rhoddir sylw hefyd i gamau eraill o ran y dull archwilio a throsolwg o'r ysgolion e.e. anfon ffurflenni hunanasesu at ysgolion a chynnal asesiad risg i sefydlu pa ysgolion y dylid eu targedu yn hytrach na'r rhaglen dreigl gyfredol a hynny er mwyn cyflwyno her gadarnach i ysgolion.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**8 ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad yn amlinellu fframwaith adrodd arfaethedig newydd ar gyfer adroddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys adrodd ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion.

Dywedodd y Rheolydd Archwilio y bwriedir adrodd yn rheolaidd i Uwch Reolwyr ar grynodeb o waith Archwilio Mewnol a wnaed, y materion o bwys a nodwyd trwy'r gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod a'r cyfraddau gweithredu argymhellion ar gyfer argymhellion sylweddol ynghyd â blaenraglen yr Archwilwyr Mewnol, a hynny gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o faterion a godwyd yn sgil gwaith a wnaed gan yr Archwilwyr Mewnol. Byddai adroddiadau o'r fath hefyd yn ceisio anfon nodyn atgoffa mewn perthynas â'r argymhellion lefel uchel a chanolig a'r argymhellion hynny y mae'r amserlen ar gyfer eu gweithredu yn dod i ben yn y dyfodol agos. Dywedodd y Swyddog y bydd yr Archwilwyr Mewnol hefyd yn achub ar y cyfle i adolygu ffurf yr adroddiadau gwaith i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r adolygiad mwy cyffredinol o'r llinellau adrodd, a hynny fel bod y dull o adrodd i Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio yn gyson â'i gilydd.

Cymeradwyodd yr Aelodau y dull arfaethedig newydd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r fframwaith adrodd arfaethedig newydd ar gyfer gwaith Archwilio Mewnol.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ATAL TWYLL A LLYGREDD**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13 ar weithgareddau'r Cyngor o ran atal twyll a llygredd.

Cyfeiriodd y Rheolydd Archwilio at y meysydd yr oedd Polisi'r Cyngor ar gyfer atal twyll a llygredd yn rhoi sylw iddynt, ynghyd â'r canlyniadau yn ystod 2012/13 mewn perthynas â gweithgareddau canfod, archwilio ac erlyn gan yr Awdurdod ac mewn cydweithrediad gyda'r Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau mewn perthynas â chynigion i gyflwyno un gwasanaeth cyfun ar gyfer ymchwilio i dwyll.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13 ar Atal Twyll a Llygredd.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 10 RHEOLI'R TRYSORLYS - CHWARTER 1 2013/14

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yn ystod chwarter cyntaf 2013/14, yn cynnwys amlinelliad o'r prif ystyriaethau mewn perthynas â benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y chwarter yng nghyd-destun y cefndir a'r rhagolygon economaidd ac yn wyneb cyngor gan Sector, sef ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 11 ARCHWILIO COFRESTRAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cadarnhaodd y Rheolydd Archwilio bod y cofrestrau diddordebau a'r datganiadau o ddiddordeb wedi bod ar gael i'r Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio eu gweld yn union cyn y cyfarfod ffurfiol heddiw. Ni chafwyd unrhyw atborth bod angen cymryd rhagor o gamau.

## 12 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 11 Rhagfyr 2013 am 2:00p.m.

**Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio (Rhagfyr 2013)
# Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth

**Lynn Ball Uwch-Berchennog Rheoli Risg**

Yn dilyn nifer o achosion o dorri dyletswydd statudol y Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel, bu'n rhaid i'r Cyngor arwyddo 'ymrwymiad' (sef ymrwymiad ffurfiol i wneud newidiadau) gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Fel rhan o waith dilynol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth archwiliwyd cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Deddf Diogelu Data 1998 ym mis Gorffennaf 2013. Edrychodd yr archwiliad ar dri faes a oedd yn debygol o beri risg i ddiogelwch gwybodaeth bersonol:

- Llywodraethiant materion Diogelu Data
- Rheoli Cofnodion
- Diogelwch Gwybodaeth Bersonol

Gwnaed dros 100 o argymhellion yn yr adroddiad. Mewn ymateb i'r argymhellion hyn mae'r Awdurdod wedi nodi camau i'w cyflawni dan bump o themâu allweddol:

- Thema 1 – Polisiau a Strategaethau
- Thema 2 – Cyfathrebu, Hyfforddiant a Chanllawiau
- Thema 3 – Rheoli Cofnodion
- Thema 4 - Mynediad i Adeiladau, Gwybodaeth a Thrydydd Partïon
- Thema 5 – Trefniadau Adrodd / Llywodraethiant (Perchenogaeth)

Mae'n bwysig nodi bod gwaith wedi cychwyn eisoes i sicrhau bod y *'Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliannau yn y maes Diogelwch Data'* yn ymgorffori'r holl weithgareddau rheoleiddiol blaenorol yn y maes hwn; byddwn o'r herwydd yn cyflawni yn erbyn un cynllun gweithredu.

Y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, fel rhan o Raglen Trawsnewid Busnes y Cyngor, fydd y cyfrwng ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu hwn.

**Gall achosion difrifol o dorri'r Deddf Diogelwch Data olygu dirwyon ariannol trwm (hyd at £500k) a niwed i enw da'r Awdurdod. Yn ogystal, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad arall yn y dyfodol agos, a gall methiant i weithredu newidiadau arwain at gymryd camau gorfodaeth yn erbyn y Cyngor.**

**Gellir dweud yn gwbl bendant y byddai gweithredu argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn lleihau'r risg o dorri'r Ddeddf Diogelwch Data mewn modd difrifol.**

**Cynnydd hyd yma:**

- Cafwyd capasiti yn ddiweddar i brosiect ar gyfer cymorth TG, AD a Chyfreithiol/DP.
- Dechreuodd y cynllun gweithredu ar 1 Tachwedd
- Paratowyd pedwar o bolisïau allweddol ac fe'u cymeradwywyd gan yr UDA: Polisi Diogelwch Data; Polisi Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd; Polisi Categorïau Data Personol (y bydd angen i'r gwasanaethau weithio arno); Risg Gwybodaeth
- Bwrdd Prosiect Nesaf: 6 Rhagfyr - adroddir ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a bydd diweddariad o'r cyfarfod hwn yn cael ei roi ar lafar i'r Pwyllgor Archwilio.

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Archwilio |
| Dyddiad | 11 Rhagfyr 2013 |
| Teitl yr Adroddiad | Uned Cynnal a Chadw Adeiladau [gelwir hefyd yn TLIU Tai] – diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu |
| Awdur | Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| Deilydd Portffolio | Cynghorydd Kenneth P Hughes |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

**1.1** Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd a wnaed i drawsnewid y gwasanaethau a ddarperir gan Uned Cynnal Adeiladau'r [UCA] Gwasanaethau Tai, ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor 24ain Mai, 2012.

**1.2 Cefndir**

Mae gwasanaeth cynnal a chadw a thrwsio effeithiol a da yn un o'r gwasanaethau pwysicaf a ddarperir gan y landlord. Mae'r gwasanaeth yn debygol o fod yr un y bydd y rhan fwyaf o denantiaid yn ei ddefnyddio, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan denantiaid, fe all gael effaith ar ansawdd bywyd y tenantiaid ac mae'n debyg o fod yn gyfrannwr allweddol at foddhad tenantiaid gyda'u landlord yn gyffredinol.

Mae gan yr UCA drosiant blynyddol o tua £4.98 miliwn (£5.2 miliwn ffigyrau 2011/12), gyda gweithlu o 45 gweithiwr yn gwasanaethu oddeutu 3,800 eiddo. Mae'r UCA hefyd yn contractio gwaith i 27 o Isgontractwyr sy'n darparu oddeutu 70 unigolyn.

**1.3 Swyddogaethau Cyfredol**

Mae'r Uned Cynnal Adeiladau yn gwneud gwaith ar y swyddogaethau a ganlyn:-

a) Gwaith Cynnal a Chadw Ymatebol o Ddydd i Ddydd - ar gyfartaledd rhyw 25-30 o achosion y dydd gyda 50% yn cael eu categoreiddio fel Argyfyngau.

b) Gwaith Trwsio Cyn Paentio

c) Addasiadau i'r Anabl

d) Cynnal a Chadw Eiddo Gwag / Ailwampio sydd ar gyfartaledd yn 10-15 eiddo yr wythnos

e) Gwaith Cynnal a Chadw Blynyddol ar Systemau Olew / Nwy, 350 eiddo y mis

f) Trwsio Systemau Olew / Nwy

g) Gwaith Allanol

h) Cynnal a Chadw Meysydd Parcio

i) Blwyddyn 6 Safonau Ansawdd Tai Cymru

j) Profion Diogelwch Trydanol (PDT) ar gyfer y rhan fwyaf o adrannau'r Cyngor

k) Mân-waith Cynnal a Chadw ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Gwastraff

l) Mân-waith cynnal a Chadw Bychan ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

m) Gosod, Cynnal a Chadw a Thrwsio Systemau Tanwydd Solet

n) Rhaglen Newid Tanwydd

**1.4** Trosglwyddwyd rheolaeth yr UCA i'r Gwasanaethau Tai ym mis Chwefror 2012.

**2.0 Adolygiadau Gwasanaeth**

**2.1 Adolygiad Ymgynghorol Swyddfa Archwilio Cymru**

Yn fuan ar ôl trosglwyddo'r Uned i'r Gwasanaethau Tai, gofynnwyd am adolygiad ymgynghorol gan y Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Tai gan Swyddfa Archwilio Cymru a adroddodd yn ôl yn Ebrill 2012.

**2.2 Casgliadau o Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru**

Daeth adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r UCA i'r casgliad '…***ni all y Cyngor ddangos bod ei wasanaeth trwsio yn cefnogi cyflawniad ei flaenoriaethau strategol, roedd gweithgareddau'r UCA yn seiliedig ar gwrdd â gofynion tendro cystadleuol gorfodol oedd wedi dyddio, nid oedd unrhyw gonsensws ynghylch yr hyn yr oedd y gwasanaeth yn anelu at ei gyflawni, ni all y Cyngor ddangos bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan sicrhau gwerth am arian, nid oes unrhyw fframwaith adrodd yn ôl am berfformiad wedi cael ei sefydlu ac mae gwendidau o ran gwirio gwybodaeth ariannol yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu gwerthuso yn llawn ei wasanaeth trwsio ymatebol***'.

**2.3** Adroddwyd ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad i'r Aelodau Etholedig drwy'r Pwyllgor Sgriwtini, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Comisiynwyr yn ystod Mai 2012.

**2.4 Atebion ar gyfer yr Adolygiad Tai**

Ym mis Mehefin 2012, fe gomisiynodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai adolygiad manwl pellach ar yr UCA drwy gwmni arbenigol cwmni a oedd ar yr un pryd yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Ddinbych i drawsnewid eu gwasanaeth TLIU. Fe gytunodd yr ymgynghorwyr oedd yn gwneud y gwaith i gynnal adolygiad o'r

Gwasanaeth ym Môn. Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod Gorffennaf ac Awst 2012 a rhyddhawyd adroddiad yn ystod mis Hydref 2012.

**2.5** Yr amcanion allweddol ar gyfer yr adolygiad oedd:

1. Cynnal adolygiad Gwasanaeth a Gwerth am Arian cynhwysfawr ar UCA Tai Ynys Môn i sefydlu beth oedd lefel gyfredol y Gwasanaeth a'r Gwerth am Arian oedd yn cael ei gynnig i'r Landlord gan yr UCA;

2. I nodi ystod eang o gyfleon i wella economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd UCA Tai Ynys Môn;

3. Gwneud argymhellion priodol i wella'r gwasanaeth a'r Gwerth am Arian, o 'enillion cyflym' hawdd i newidiadau mwy sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaeth.

**2.6** Datgelodd yr Adolygiad Gwasanaeth a Gwerth am Arian a wnaed ar UCA Tai Ynys Môn bod y gwasanaeth yn cyrraedd lefel o **wasanaeth un seren** (h.y. gwasanaeth gweddol) ond bod iddo **ragolygon gwael i wella pe bai'r rhaniad cyfredol rhwng client/contractwr yn cael ei gadw yn ei ffurf bresennol.**

**2.6.1 Yr argymhellion allweddol**

Gwnaed nifer o argymhellion o ganlyniad i'r ddau arolwg ac y mae'r rhain wedi eu cynnwys mewn cynllun gweithredu SMART sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn **Atodiad1.** Mae'r atodiad hefyd yn nodi'r cynnydd hyd yma yn erbyn pob tasg a ffrwd gwaith.

Mae rhestr o'r 10 argymhelliad pwysicaf, wedi eu gosod yn ôl blaenoriaeth, yn cael ei hamlinellu isod a dylid nodi bod y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys argymhellion ar gyfer yr elfen cleient a'r contractwr yn y gwasanaeth trwsio oherwydd bod cysylltiad annatod rhyngddynt:

1. **Rhaniad Cleient/Contractwr** - Mae angen brys i adolygu'r rhaniad cleient/contractwr cyfredol sydd yn wendid mawr ac a fydd yn rhwystro gwasanaeth rhag symud yn ei flaen os cedwir ef yn ei ffurf bresennol. Mae nifer o opsiynau ar gael i Adran Tai Ynys Môn fel cadw toriad rhwng y cleient a'r contractwr ond gweithio yn ôl egwyddorion partneriaethu, i sefyllfa lle ceir gwasanaeth trwsio cleient/contractwr sydd wedi ei gyfuno'n llawn (sef y model y mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau ardderchog tair seren yn ei ddefnyddio). Mae angen i Wasanaeth Tai Ynys Môn werthuso pob un o'r opsiynau hyn o fewn cyd-destun ei gyfeiriad strategol newydd ar gyfer y Gwasanaeth Tai a gweithredu ar yr opsiwn mwyaf addas ar gyfer ei swyddogaeth trwsio.

2. **Perfformiad** - wedi ei gysylltu'n agos i'r uchod y mae'r angen i sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad, data meincnodi, gwybodaeth am anghenion y

cwsmer, boddhad cwsmer a gwybodaeth am gwynion yn cael ei rannu'n ysbeidiol gyda'r UCA fel rhan o ddiwylliant newydd o weithio mewn tîm a chyfathrebu a gwelliant parhaus a hynny er mwyn datblygu agwedd 'cerdyn sgorio cytbwys' i reoli perfformiad h.y. cost, ansawdd, gweithgaredd a gwybodaeth cwsmer. Hefyd i sicrhau agwedd gynhwysfawr tuag at gasglu gwybodaeth am foddhad y cwsmer fel y caiff hwn ei ddefnyddio i siapio a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol. Dylid cael cytundeb sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ynglŷn â thargedau perfformiad.

3. **Rheolaeth Ariannol** - Cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ar gyfer busnes gyda throsiant blynyddol o £5.2 miliwn. Bod cyllidebau'n cael eu datblygu i'r UCA (gyda'r UCA yn cymryd rhan) a bod y cyfrif masnachu presennol yn cael ei ddiwygio i fod yn fwy 'defnyddiwr-gyfeillgar'. Y dylai'r holl reolwyr anariannol ar ochr y cleient a'r contractwr i'r busnes sydd â chyfrifoldeb am gyllidebau gael hyfforddiant ar reolaeth ariannol a bod craffter masnachol yn gwella.

4. **Technoleg Gwybodaeth** - Mae systemau newydd yn cael eu gweithredu ond yn ein barn ni mae'r Gwasanaeth Tai yn ceisio gwneud gormod mewn cyfnod byr ac mae hynny'n gwneud y gwasanaeth a'r UCA yn sgil hynny, yn agored i lefel sylweddol o risg. Rydym yn argymell y dylid adolygu ar frys yr amserlen ar gyfer y gwaith a'i seilio ar raddfa flaenoriaeth 'rhaid/dylid/gellid'. Rydym hefyd yn argymell, yn unol ag arfer orau, bod cynlluniau wrth gefn priodol yn cael eu datblygu gyda'r tîm UCA, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i gael ei ddarparu hyd yn oed pe bai'r systemau newydd yn methu â gweithio'n effeithiol, neu yn wir, o gwbl.

5. **Rheoli Contract/Cadw Tŷ** - i weithredu rhestr gynhwysfawr o dasgau rheoli contract/cadw tŷ i sicrhau bod systemau'r UCA bob amser yn gyfredol, yn gywir a'u bod yn ffurfio sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus.

6. **Gwasanaethu Nwy** - Newid y trefniadau ar gyfer y rhaglen cynnal a chadw systemau nwy er mwyn sicrhau bod tystysgrifau diogelwch nwy yn cael eu darparu o fewn yr amserlen statudol.

7. **Cyn-Archwiliadau / Ôl-Archwiliadau** - gostwng y lefel uchel gyfredol o gyn-archwiliadau i lawr i lefelau arfer dda'r diwydiant sef 10%. Hefyd i leihau lefel yr ôl-archwiliadau i rwystro'r dyblygu ymdrech sy'n digwydd yn y maes hwn ar hyn o bryd

8. **Safon ar gyfer Gosod** - adolygu'r safonau sylfaenol ar gyfer gosod (h.y. lle y gall gwaith gael ei wneud mewn eiddo sydd yn mynd y tu draw i'r safonau) ac

yn lle hynny, cael safon gyffredin ar gyfer gosod lle mae safon yr <u>holl</u> dai gwag sy'n cael eu dychwelyd i reolaeth yr un fath (oni bai bod y rheolwyr wedi cytuno i unrhyw newid oherwydd bod yr eiddo'n anodd i'w osod ac ati), a thrwy hynny sicrhau nad yw cwsmeriaid yn cael tai o wahanol lefelau o ansawdd.

9. **Gwasanaeth y Cwsmer** – bod Polisi Atgyweirio'n cael ei ddatblygu, bod Safonau Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn cael eu diwygio i lefelau arfer orau, a dileu'r gwahaniaethau cyfredol rhwng targedau a ddefnyddir gan UCA a'r prif wasanaeth, bod grwpiau cwsmer yn sgriwtineiddio'r gwasanaeth yn iawn a bod ganddynt ran yn ei wella, bod pob llawlyfr, cyfarwyddyd a llenyddiaeth i gwsmer yn cael eu hadolygu i lefelau arfer orau. Rydym yn argymell bod yr UCA yn cymryd rhan gyda datblygu'r rhain fel y gall yn wirioneddol 'roi'r cwsmer wrth wraidd ei fusnes'.

10. **Cynllun Busnes Tymor Canol (3 i 5 mlynedd)** - bod cynllun busnes TLIU tymor canol yn cael ei ddatblygu a'i gefnogi gyda chynllun ariannol tymor canol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr UCA yn alinio'n strategol gyda'r Gwasanaeth Tai, ei fod yn symud ymlaen mewn ffordd gynlluniedig, ei fod yn ymarferol yn ariannol a bod ganddo fap clir o'r ffordd i'r chwartel uchaf/lefelau degymol.

**2.7 Y canfyddiadau allweddol o'r adroddiad archwilio mewnol**

**2.7.1** Cafodd y trydydd adolygiad a oedd yn dilyn o'r adolygiad uchod 'Atebion ar gyfer Tai' o ganlyniad i'r risgiau a nodwyd i'r Gwasanaethau Tai, ei gomisiynu gan y Pennaeth Gwasanaeth, Tai, o'r Tîm Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar Drefniadau Caffael yr UCA. Derbyniwyd yr Adroddiad ymgynghorol hwn ar ddiwedd mis Hydref 2012 ac anfonwyd copi at y Swyddog Adran 151.

**2.7.2** Gwelodd yr adolygiad ... '***nad oedd gan y UCA unrhyw weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod trefniadau caffael yr UCA yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor ..... nid oedd tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda Rheolau Gweithdrefn Contract o ran tendro a chontractau.'***

**2.8** Lluniwyd cynllun gweithredu cynhwysol yn dilyn tri adroddiad beirniadol. Gwnaed cynnydd sylweddol gyda chanran uchel o ffrydiau gwaith gwella yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda llond llaw yn unig o ffrydiau lle gwnaethpwyd ond ychydig neu ddim cynnydd o gwbl. Yn ôl hunanarfarniad gan aelodau o staff, mae'r canlynol yn rhoi darlun o'r modd y darparwyd yn erbyn y cynllun gweithredu.

61.5% o dasgau wedi eu cwblhau

32.5% o dasgau ar y gweill

6% heb unrhyw gynnydd wedi ei wneud hyd yn hyn.

## 3.0 Cynnydd

**3.1** Y meysydd allweddol a nodwyd i'w gwella ac y gweithredwyd arnynt yw:

### 3.1.1 Y rhaniad rhwng y Cleient/Contractwr

Gwnaed cynnydd cyfyngedig, fodd bynnag, bydd y gwaith yn cael ei yrru yn ei flaen yn ystod cam nesaf y gwaith o foderneiddio'r Gwasanaeth. Mae hwn yn faes risg i'r Gwasanaeth ynghyd â phrinder Swyddogion sydd â phrofiad o reoli newid i yrru hyn yn ei flaen.

### 3.1.2 Perfformiad

**Orchard:** Mae perfformiad yn cael ei fonitro trwy'r system gyfrifiadurol Orchard newydd, lle gellir creu adroddiadau perfformiad unrhyw amser drwy 'Business Objects'. Gwneir defnydd rhagweithiol o Housemark a data meincnodi perfformiad APSE a bydd data o ran costau, mewnbwn ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hadrodd a'u trafod yn fisol fel rhan o Gerdyn Sgorio Cytbwys y Gwasanaethau Tai.

Yn ystod y flwyddyn, mae tystiolaeth glir yn dangos bod perfformiad o ran trwsio tai gwag wedi gwella, fel hefyd yr holl waith trwsio ar systemau nwy a thanwydd solet.

Mae tracwyr a leolwyd ar gerbydau peirianwyr nwy wedi darparu erfyn hanfodol o ran sicrhau effeithlonrwydd yr adnoddau presennol, ynghyd â'r stoc faniau, oherwydd mae'n golygu fod y contractwr cymwys agosaf yn cyflawni tasgau heb orfod dychwelyd i'r Depo i godi stoc.

### 3.1.3 Rheolaeth ariannol

Ers 1 Ebrill 2013, mae'r UCA yn ganolfan gost lle codir tâl yn ôl pris cost am yr holl waith a wneir ar ran y Gwasanaethau Tai a rhagwelir y bydd hyn yn ei dro yn rhoi arbedion. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i wella gwybodaeth ynghylch rheolaeth ariannol a gosod cyllideb realistig. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud i fireinio'r gwaith o osod cyllideb wrth i Civica ymwreiddio. Mae gwiriad realiti wedi cael ei gomisiynu Rhagfyr, 2013 ac mae'r Pennaeth Gwasanaeth o'r farn y gellir sicrhau llawer iawn mwy o arbedion drwy wneud y defnydd mwyaf posibl o'r system TG newydd a chan gyflwyno dulliau newydd o weithio.

Rhestr gyfraddau: Mae rhestr gyfraddau M3 newydd wedi ei chyflwyno ond yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd oherwydd yr angen i adolygu'r gwerth munud safonol [gwerth SM] am nad oedd yn addas ac yn briodol i'r pwrpas. Mae staff UCA a Tai yn gweithio mewn partneriaeth i edrych ar yr holl gyfraddau a'u hadolygu. Mae hon yn broses hir oherwydd bod yn rhaid edrych yn unigol ar yr holl gyfraddau.

### 3.1.4 Technoleg Gwybodaeth

Cyflwynwyd y system *Orchard Housing* newydd ym mis Tachwedd 2012 a chafwyd problemau cychwynnol. Roedd hyn i'w ddisgwyl. Gan fod yr UCA yn awr yn ganolfan gost, mae'r holl ffioedd a godir yn ôl pris cost. Bu'n broses hir i gael sefydlu'r cyfleuster canolfan gost o fewn y system oherwydd cefnogaeth gyfyngedig a gafwyd gan y Gwasanaethau Cyllid yn ystod y 12 mis diwethaf gan fod Cyfrifydd y Gwasanaeth hefyd wedi ei secondio i Dîm Prosiect Civica. Gan fod y rhain bellach wedi cael eu cyflwyno, mae'r UCA yn gwneud cynnydd dai iawn o ran codi tâl am waith sydd wedi ei gwblhau. Oherwydd yr amserlen o ran gosod y data angenrheidiol yng nghyswllt y ganolfan gost, mae'r ffioedd y mae angen eu rhoi i mewn yn y system wedi cronni. Mae staff gweinyddol yr UCA yn gweithio ar hyn o bryd i geisio lleihau hyn.

Mae gwaith a archebwyd nad yw'n waith argyfwng wedi ei sefydlu i argraffu fel grŵp o dasgau am 12pm a 4pm bob dydd. Caiff y tasgau hyn wedyn eu categoreiddio gan y Rheolwyr fydd yn penderfynu pa rai o'r crefftwyr neu gontractwr sydd ar gael i wneud y gwaith ac mae'r rhain wedyn yn cael eu rhoi i mewn yn y calendr apwyntiadau ar gyfer pob unigolyn ac yn rhoi cyfnod o amser (cyfnod 30 munud) yn dibynnu ar werth SM y dasg a archebwyd. Gwneir apwyntiadau dyddiadur yn ddyddiol ymlaen llaw ac y mae staff a chontractwyr yn gwybod am y diwrnod pryd y mae apwyntiad wedi'i drefnu, ynteu'r bore neu'r prynhawn a gellir dweud wrth y cwsmer. Ni fydd hyn ond yn digwydd gyda gwaith sy'n cael ei archebu fel blaenoriaeth arferol. Gyda gwaith argyfwng, rhoddir sylw i'r rhain o fewn 4 awr a dywedir wrth denantiaid pa bryd y bydd y crefftwr yn galw gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd. Bydd hyn yn cael ei fireinio gyda chyflwyno/ gweithredu'r dyfeisiadau llaw newydd, sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd gan rai contractwyr.

### 3.1.5 Rheoli Contract / Cadw Tŷ

Consortia Caffael: Mae dogfennau strategaeth drafft wedi cael eu paratoi ar gyfer caffael deunyddiau i'r storfeydd, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chaffael ar gyfer tai ynghyd â chefnogaeth gan Reolwr Caffael y Cyngor yng nghyswllt meincnodi. Disgwylir adroddiad yn fuan gan y cwmni a Rheolwr Cynorthwyol Gweithgareddau'r UCA. Mae dogfennau ar gyfer caffael contractwyr yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

### 3.1.6 Cynnal a chadw systemau Nwy

Mae'r UCA yn gwneud gwaith cynnal bob blwyddyn ar yr holl systemau gwresogi olew, nwy a thanwydd solet. Mae hyn yn gyfanswm o 3210 o systemau, sef 350 y mis. Caiff y gwaith cynnal a chadw ar systemau gwresogi ei wneud yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Thachwedd.

Systemau Nwy 2426 (Ebrill-Hydref)

Systemau Olew 247 (Ebrill-Gorffennaf)

Systemau Tanwydd Solet 537 (Ebrill-Tachwedd)

Caiff 100% y gwaith cynnal a chadw ei wneud yn ystod y cyfnodau hyn.

Yn dilyn o'r argymhellion yn y Datrysiadau Tai, mae'r gwelliannau isod wedi cael eu cyflwyno i'r broses o gynnal a chadw systemau tanwydd:-

**a)** Mae dyddiadau y daw CP12 i ben wedi cael ei hychwanegu at y data-basau misol.

**b)** Mae'r dyddiadau y daw'r larymau CO i ben wedi cael eu hychwanegu at y data-basau.

**c)** Yr UCA sy'n trefnu'r holl apwyntiadau i gynnal a chadw systemau.

**d)** Mae'r gwaith cynnal a chadw wedi ei raglennu ar gyfer y pythefnos gyntaf ym mhob mis er mwyn caniatáu ar gyfer yr ail gyfle ac i brosesau Adran 54 gael eu cwblhau cyn i'r CP12 cyfredol ddod i ben.

**e)** Caiff gwrthodiadau eu cyfeirio'n ôl i'r UCA ar ddiwedd bob diwrnod fel y gellir gweithredu'n gyflymach ar yr ail gyfle a'r broses 54.

**f)** Bydd nifer y systemau yn cynyddu dros amser wrth i rai newydd gael eu gosod. Unwaith y byddant wedi eu gosod, caiff y systemau newydd eu hychwanegu at raglen flynyddol yr UCA.

**g)** Yn dilyn cymharu costau gwasanaeth, roeddid o'r farn bod ffioedd yr UCA yn gystadleuol ac yn cymharu gydag un o'r prif gwmnïau cyfleustodau cenedlaethol.

### 3.1.7 Archwiliadau cyn/ar ôl y gwaith

Gweithredwyd ar argymhellion a bydd yr Uwch Swyddog Cynnal a Chadw yn ei hadolygu er mwyn sicrhau y cynhelir safon y gwasanaethau.

### 3.1.8 Safon gosod

Gweithredwyd ar yr argymhellion.

### 3.1.9 Gwasanaeth Cwsmer

Mae holl staff yr UCA wedi cael gwisg unffurf ac mae côd ymddygiad newydd ar gyfer gweithwyr wedi cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad gyda grwpiau tenantiaid ac aelodau staff a'i gyflwyno. Bellach mae rhif rhadffôn newydd ar gael ac mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant gofal cwsmer yn ddiweddar.

Mae'r broses o adolygu llawlyfrau i gwsmeriaid yn mynd rhagddo.

Mae arolwg boddhad cwsmer yn cael ei adael ym mhob eiddo gydag amlen â stamp arni ar gyfer ei ddychwelyd, ei ddadansoddi ac adrodd ar ansawdd y gwasanaeth. Bydd tîm o Denantiaid sy'n Arolygu yn cynnal gwiriadau ar hap yn chwarter 3 mewn perthynas â gwaith y contractwyr UCA sy'n ymwneud ag atgyweirio tai gweigion yn erbyn y ddogfen Safonau ar gyfer Gosod sydd newydd gael ei mabwysiadu.

#### 3.1.10 Cynllun Busnes Tymor Canol (3 i 5 mlynedd)

Mae gwaith wedi cychwyn ar y cynllun busnes a bydd canlyniad y Gwerthuso Opsiynau ac Adolygiad Gwasanaeth a gomisiynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai yn dilyn ymddeoliad y Rheolwr Gweithredol ym mis Tachwedd 2013, yn cael ei ddefnyddio i roi siâp ar y cynllun.

## 4.0 Risgiau cyfredol yr UCA a drosglwyddwyd i Gofrestr Risg y Gwasanaethau Tai

- Diffyg Swyddogion profiadol i weithredu newid
- Rheolau pwrcasu a chontractau - diffyg cynnydd gan Swyddogion
- Methiant y system TG newydd
- Gwrthwynebiad i newid e.e. cyflwyno oriau gwaith mwy hyblyg
- Gorwariant sylweddol
- Iechyd  a Diogelwch – staff sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain
- Lefel gynyddol y ffioedd heb eu talu ynghylch gwaith y codir amdano.

## 5.0 Casgliad

**5.1** Gwnaed cynnydd cadarnhaol dros y 12 i 14 mis diwethaf yn y mwyafrif o'r meysydd a nodwyd fel rhai yr oedd angen eu gwella a'r cynnydd hwnnw wedi cael ei yrru gan agwedd gadarnhaol y staff a oedd yn dymuno gweld y gwasanaeth yn gwella ac yn rhannu'r weledigaeth i drawsnewid y gwasanaeth. Mae'r agwedd benderfynol hon ar weledigaeth a rennir wedi arwain at gynyddu enw da a pherfformiad y gwasanaeth. Cydnabyddir bod mwy o waith i'w wneud a bydd hynny'n dilyn fel rhan o'r adolygiad o gynnydd yr adroddwyd arno drwy'r ymarfer hunan-arfarniad a bydd ymgynghorwyr a benodwyd yn gwirio'r cynnydd hwn yn annibynnol.

## 6.0 Camau nesaf

**6.1** Bydd gwerthusiad opsiynau ac arfarniad annibynnol o'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn cael eu cynnal ym mis Chwefror 2014 ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith y Cyngor ym Mawrth 2014.

**6.2** Bydd cynnydd o ran gweithredu ar yr opsiwn a ffefrir yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid Rhagoriaeth Gwasanaeth a bydd dull rheoli prosiect ffurfiol yn cael ei fabwysiadu.

## 7.0 Argymhellion

**7.1** Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma i drawsnewid a moderneiddio'r Uned UCA drwy gyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu.

**Awdur yr Adroddiad:**
Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
21/11/13

**Atodiad 1**

Cynllun Gweithredu yn manylu ar gynnydd

**Papurau Cefndir**

Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2012

Adolygiad Atebion ar gyfer Tai, Hydref 2012

Adolygiad Archwilio Mewnol, Hydref 2012

| Gweithredu | Amcan | Amserlen | Sylwadau | % a gwblhawyd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Delwedd gorfforaethol / ail-frandio** | | | | |
| a) Ailstrwythuro | Gweithio'n effeithlon ac arbedion ariannol | **Mawrth 2014** | | |
| b) Ailfrandio | Creu hunaniaeth newydd | **Mawrth 2013** | Wedi'i lansio drwy Newyddlen | **100%** |
| c) Gwisg unffurf | Gweithlu Proffesiynol | **Mawrth 2013** | Cwblhawyd, cafwyd gwisg newydd ym mis Mawrth 2013 | 100% |
| **2. Rheolaeth Ariannol** | | | | |
| a) Cryfhau trefniadau rheolaeth ariannol, cyflwyno cyfrif masnachu newydd a rhoi hyfforddiant ariannol i reolwyr | Cynhyrchu cyllidebau ar gyfer yr UCA<br><br>Diwygio fformat y cyfrif masnachu<br><br>Cyfrifon rheoli misol gyda dadansoddiad o amrywiadau<br><br>Canlyniadau rhagolygon<br><br>Darparu hyfforddiant | **Ebrill, 2013** | Gweithredwyd Canolfan Gost ym Mehefin 2013. Cafwyd oedi gyda'i sefydlu yn Civica. | 100% |
ac mae rhywfaint o gynnydd ar y gweithredoedd sydd wedi eu cynllunio i greu a chyflwyno’r arbedion.

5.3 Gwnaed cynnydd hefyd ar ddatblygu fframwaith aswiriant a mapio'r ffynonellau o sicrwydd. Mae trafodaethau wedi eu cynnal ynglŷn â symleiddio'r hunan arfarnu ac agweddau o gynllunio’r adolygiad blynyddol.

5.4 Mae nifer o eitemau wedi eu dal yn ôl wrth aros am y strwythurau rheoli newydd a llenwi swyddi allweddol fel y Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol a byddant yn cael eu rhaglennu nawr.

5.5 Mae adolygiad ar y gweill o’r cynnydd ar gyflawni’r Cynllun Trawsnewid er mwyn sicrhau bod holl agweddau’r cynllun yn cael sylw priodol. Bydd yn cael ei oleuo gan ac fwydo i mewn i’r gweithred o adolygu’r prosesau sy’n cefnogi’r Byrddau Trawsnewid.

6. **Argymhelliad**

6.1 Bod y Pwyllgor Archwilio:

- yn nodi sgôp ac amserlen yr Asesiad Corfforaethol arfaethedig;
- yn nodi'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu ac Aswiriant, yn ystyried y cynnydd a wnaed, ac yn gwneud sylwadau.

**EINIR WYN THOMAS** **4 RHAGFYR 2013**
**PENNAETH GWASANAETH**

**Atodiad A**

## Trosolwg Hierarchaeth Cwestiynnau yr Asesiad Corfforaethol

| |
|---|
| **A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?** |
| **A yw'r awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni ei welliannau arfaethedig i berfformiad a chanlyniadau?**<br>1.1 A yw'r awdurdod yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell i bobl sy'n byw yn yr ardal?<br>1.2 A yw'r awdurdod yn cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau? |
| **2. A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr awdurdod yn cefnogi gwelliant?**<br>2.1 A yw'r awdurdod yn sefydlu gweledigaeth glir ac ymdeimlad o bwrpas sy'n adlewyrchu anghenion lleol, barn pobl leol, blaenoriaethau cenedlaethol ac a fydd yn sicrhau canlyniadau gwell mewn modd effeithiol?<br>2.2 A yw'r awdurdod yn dangos arweinyddiaeth agored a chynhwysol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant parhaus o ran perfformiad staff, trefniadau gweithio mewn partneriaeth, a chanlyniadau i ddinasyddion? |
| **3. A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol?**<br>3.1 A yw rolau a chyfrifoldebau clir yn sicrhau llywodraethu da ac atebolrwydd clir?<br>3.2 A yw'r aelodau etholedig a swyddogion yn dangos gwerthoedd ac ymddygiad priodol?<br>3.3 A oes trefniadau digonol ar waith i gefnogi aelodau ac uwch swyddogion i gyflawni eu rôl yn effeithiol?<br>3.4 A yw'r prosesau gwneud penderfyniadau ar draws yr awdurdod yn gadarn ac effeithiol?<br>3.5 A yw'r prosesau herio, craffu ac adolygu yn sicrhau y caiff amrywiaeth o safbwyntiau hyddysg eu nodi a'u hystyried er mwyn helpu i wneud penderfyniadau a sicrhau gwelliant?<br>3.6 A yw'r ymgysylltu rhwng yr awdurdod a'i randdeiliaid yn cefnogi atebolrwydd gwirioneddol?<br>3.7 A yw'r awdurdod yn sicrhau y caiff trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol eu cynnal pan fydd yr awdurdod yn darparu gwasanaethau drwy gwmnïau, ymddiriedolaethau ac endidau allanol eraill? |
| **4. A yw'r awdurdod yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni ei welliannau arfaethedig i berfformiad a chanlyniadau?**<br>4.1 A yw gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol ac amcanion gwella â llai o adnoddau?<br>4.2 A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i reoli a defnyddio ei weithlu?<br>4.3 A yw trefniadau rheoli asedau'r awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella cadarn ac effeithiol?<br>4.4 A yw dull yr Awdurdod o ddefnyddio technoleg yn cefnogi prosesau Gwella mewn modd cadarnhaol?<br>4.5 A yw dull yr Awdurdod o Reoli Gwybodaeth yn cefnogi prosesau Gwella mewn modd cadarnhaol? |
| **5. A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth yr awdurdod yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?**<br>5.1 A yw'n glir beth mae'r trefniadau cydweithio yn anelu at ei gyflawni?<br>5.2 A yw'r trefniadau cydweithio yn gadarn ac yn gynaliadwy?<br>5.3 A yw'r adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol?<br>5.4 A oes fframwaith/system rheoli perfformiad glir ar waith ac a yw perfformiad yn cael ei reoli'n dda? |

| |
|---|
| 5.5 A yw'r trefniadau cydweithio yn cyflawni canlyniadau gwell? |
| **6. A yw’r awdurdod yn rheoli ei raglen wella yn effeithiol?’**<br>6.1 A yw trefniadau cynllunio gwelliant yr awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella cadarn ac effeithiol?<br>6.2 A yw trefniadau rheoli perfformiad yr awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella cadarn ac effeithiol?<br>6.3 A yw trefniadau rheoli risg yr awdurdod yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwella cadarn ac effeithiol?<br>6.4 A oes gan yr awdurdod brosesau a systemau clir a chadarn ar waith i gefnogi'r broses o gyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad. |

| Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu ac Aswiriant – Pwyllgor Archwilio Rhagfyr 2013 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater** | **Cyf** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** | **Swyddog Arweiniol** | **Dyddiad** | **Statws fel Tachwedd 2013** | |
| **Materion Llywodraethu o Sylwedd** | | | | | | |
| Yr angen i sicrhau cyflawni'r Cynllun Trawsnewid fel sydd wedi ei gynllunio gan barhau i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol | 1.1 | Sefydlu Byrddau Trawsnewid; Swyddfa Rheoli rhaglen a threfniadau llywodraethu. | Rheolwr Rhaglen Corfforaethol | Medi 2013 | Wedi cwblhau - bydd angen adolygu'r prosesau o gychwyn ac adrodd prosiectau a'r trefniadau llywodraethu perthnasol. | ✓ |
| | 1.2 | Datblygu capasiti mewnol i gefnogi trawsnewid a gwella. | Dirprwy Brif Weithredwr | Medi 2013 | Rhywfaint o lithro - adrodd i'r Pwyllgor Gwaith yn Rhagfyr 2013 | |
| Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen gan y Cyngor | 2.1 | Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | I'w gadarnhau | Diweddarir y Cynllun Cyllid Tymor Canol cyfredol yn chwarterol. Bydd angen ffurfioli a chyhoeddi strategaeth maes o law | |
| | 2.2 | Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | I'w gadarnhau | Wrthi'n sgopio'r gweithredu | |
| | 2.3 | Cyflwyno Polisi a Strategaeth Comisiynu a Chaffael | Cyfarwyddwr y Gymuned /Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | Gorffennaf 2014 | Ymgynghori ar fersiynau drafft | |
| Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn | 3.1 | Mae'r Cyngor wedi cytuno archwiliad cydsyniol gan y Comisiynydd Gwybodaeth. | SIRO | Mai 2013 | Archwiliad wedi ei gynnal Mai 2013, adroddiad terfynol wedi ei dderbyn Hydref 2013 | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain | 3.2 | Creu bwrdd prosiect i weithredu cynlluniau gwaith presennol ynghyd ag argymhellion y Comisiynydd Gwybodaeth | SIRO | Medi 2013 | Bwrdd Prosiect mewn lle; Cynllun Gweithredu wedi ei gytuno; Cyllideb yn ei le. | |
| **Materion Fframwaith Llywodraethu a'i Adolygu** | | | | | | |
| Trefniadau i Fonitro'r Fframwaith Llywodraethu a'r Cynllun Gweithredu | 4.1 | Gwahodd y Pwyllgor Archwilio i gymryd adroddiadau monitro cyson | EWT | Gorffennaf 2013 | Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio ar 23 Gorffennaf gymryd adroddiadau monitro cyson | ✓ |
| | 4.2 | Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i sicrhau y gellir casglu aswiriant ar gyfer y DLIB (Datganiad Llywodraethu Blynyddol) trwy'r flwyddyn | Dirprwy Brif Weithredwr/ Swyddog Monitro | Mawrth 2014 | Gwaith yn dechrau yng ngoleuni canllawiau sy'n datblygu. Disgwyl arweiniad diwygiedig CIPFA Rhagfyr 2013 | |
| Cyflawni Fframwaith Llywodraethu Cydlynol | 5.1 | Lledu'r fframwaith i gynnwys aswiriant ar Weledigaeth y Cyngor a'r deillianau ar gyfer y cyhoedd | EWT | Medi 2013 | Cod Llywodraethu Lleol newydd wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ar 9 Medi 2013 gan ehangu'r fframwaith | ✓ |
| | 5.2 | Dogfennu'r fframwaith gan sicrhau fod pob polisi, strategaeth, gweithdrefn ac adroddiad perthnasol a chyfredol ar gael yn hawdd | EWT | Rhagfyr 2013 | Ar waith | |
| | 5.3 | Rhoi hyfforddiant i reolwyr a staff | EWT/ Pennaeth Proffesiwn AD | Parhaus | Rhestr cael ei baratoi sy'n cynnwys anghenion hyfforddi yn deillio o bob agwedd ar y cynllun hwn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysoni'r Hunan Arfarniadau | 6.1 | Penderfynu sut i gysoni prosesau datblygu'r Hunan Arfarniad, y DLIB a'r Adroddiad Gwella | EWT | Ionawr 2014 | Trafodaethau cychwynnol yn Hydref 2013 Disgwyl canllawiau SAC | |
| | 6.2 | Hyrwyddo gwell cysondeb ar draws y gwasanaethau yn safon yr hunan-arfarnu | [Dirprwy Brif Weithredwr] | Parhaus | Disgwyl y strwythur newydd | |
| Gwerthuso effeithlonrwydd rheolaeth | 7.1 | Mapio trefn aswiriant y Cyngor dros ei holl feysydd llywodraethu allweddol a'i ddefnyddio i fwydo'r DLIB a'i gysylltu i gynllun aswiriant Archwilio Mewnol a'r hunan arfarniad corfforaethol blynyddol | EWT | Ionawr 2014 | Trafodaethau cychwynnol ac yn disgwyl arweiniad SAC | |
| | 7.2 | Penderfynu sut i werthuso'r rheolaethu o fewn y fframwaith aswiriant | EWT | Ionawr 2014 | Trafodaethau cychwynnol ac yn disgwyl arweiniad SAC | |
| **Meysydd Datblygu** | | | | | | |
| Sicrhau trefniadau Uwch-Reolwyr cydlynol ac effeithiol | 8.1 | Cwblhau'r Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Hydref 2013 | Strwythur newydd yn ei le Tachwedd 2013 - swyddi gwag terfynol i'w llenwi drwy benodiadau allanol | ✓ |
| | 8.2 | Dogfennu a mewnblannu rôl y Penaethiaid Gwasanaeth a'u perthynas efo'r UDA. | Dirprwy Brif Weithredwr | Rhagfyr 2013 | Cwmpaswyd yn bennaf drwy ddisgrifiadau swydd a chynllun dirprwyo; rolau i gael ei ysgrifennu i fyny a byddant ar gael ar y fewnrwyd, hyfforddiant arfaethedig (gweler 5.3) | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8.3 | Cytuno Protocol ar gyfer y Swyddog Cyllid i sicrhau y gall y Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio a'r Datganiad ar rôl y Prif Swyddog Cyllid. | Swyddog Monitro | Mawrth 2014 | Ar waith | |
| Datblygu Aelodau | 9.1 | Cyflawni gofynion "Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru". | Pennaeth y Gwasanaetha u Democrataidd | Mawrth 2014 | Adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Medi 2013. Adolygiad nesaf i'w wneud yn seiliedig ar ddatrys swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | |
| | 9.2 | Cwblhau'r rhaglen ar ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a gyllidir gan GLILC. | Prif Weithredwr | Hydref 2013 | Rhaglen wedi ei gwblhau - adroddiad terfynu i'w anfon at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | ✓ |
| Datblygu a mewnblannu'r drefn Rheoli Perfformiad Corfforaethol, Rheoli Rhaglen a Rheoli Risg a sicrhau Gwybodaeth reholi addas | 10.1 | Cytuno a chyflwyno Fframwaith Rheoli Perfformiad Newydd | Dirprwy Brif Weithredwr | Ch1 2013 | Yn ei le ers Ch1 2013/14 - parhau i adolygu effeithiolrwydd | *A* |
| | 10.2 | Adolygu'r trefniadau ar gyfer system reoli perfformiad ar y we. | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | Ionawr 2014 | Wedi llithro wrth i drefniadau Llywodraeth Cymru gymryd mwy o amser na'r disgwyl. Bydd tasg yn cychwyn unwaith y bydd cynnig Llywodraeth Cymru yn gliriach. | |
| | 10.3 | Adnabod systemau gwybodaeth cyfredol gan ddeall sut y maent yn integreiddio a'i gilydd gan adnabod unrhyw fylchau | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | I'w gadarnhau | Mae'r gweithred yma ar hyn o bryd yn cael ei sgopio | |
| | 10.4 | Mewnblannu trefniadau Rheoli Risg | Dirprwy Brif Weithredwr | Parhaus | Yn ei le - parhau i adolygu effeithiolrwydd | *A* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 10.5 | Cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer Rheoli Rhaglen a Rheoli Prosiect | Rheolwr Rhaglen Corfforaethol | Mawrth 2014 | I'w ddechrau ar ôl cwblhau'r adolygiad o dan 1.1 - tasg i'w fonitro gan y Bwrdd Trawsnewid Busnes | |
| | 10.6 | Cyflwyno Grŵp Swyddogion i adolygu a gwneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â pherfformiad, prosiectau, cynlluniau gweithredu a risgiau | Dirprwy Brif Weithredwr | Ch1 2013 | Mewn lle Mai 2013 | ✓ |
| Cryfhau Trefniadau Rheolaeth Ariannol | 11.1 | Cwblhau cyflwyno'r systemau ariannol newydd. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | Mehefin 2014 | Wedi mynd yn fyw ddiwedd Mawrth 2013. System yn cael ei ddatblygu a'i fireinio. Cyfrifon cyntaf yn seiliedig ar y system newydd i'w cyhoeddi ar ffurf drafft erbyn mis Mehefin 2014. | |
| | 11.2 | Cwblhau strwythur staffio newydd ar gyfer Cyllid. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | Rhagfyr 2013 | Bron wedi cwblhau - yn parhau cyn belled ag y mae rhai swyddi yn y cwestiwn eto i'w llenwi. | |
| | 11.3 | Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | Mawrth 2014 | Mae angen i Reolau Gweithdrefn Ariannol i fod yn gyson â'r Rheolau Gweithdrefn Contract sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru ar hyn o bryd. Mae CSYM yn cydweithio gyda rhai Awdurdodau eraill Gogledd Cymru ar reolau contract. | |
| Sicrhau fod blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer llywodraethu yn eu lle yn gyson ar draws Adrannau a sicrhau cydymffurfio | 12.1 | Sicrhau rheoli cyson ar absenoldeb a salwch | Pennaeth Proffesiwn AD | Parhaus | Adnodd ychwanegol ar waith tan Mawrth 2013; i'w fonitro drwy'r Cerdyn Sgorio Perfformiad | *A* |
| | 12.2 | Cynyddu canran cwblhau'r adolygiadau perfformiad unigol | Pennaeth Proffesiwn AD | Parhaus | Cael ei fonitro trwy'r Cerdyn Sgorio Perfformiad | *A* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 12.3 | Cyflawni'r Blaenoriaethau Datblygu yn y Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol | [Dirprwy Brif Weithredwr] | I'w adolygu | Argymhellion ar gyfer gwella cyfathrebu mewnol a gyflwynir gan hyrwyddwyr Cyfathrebu ym mis Medi 2013 - rhaglen i'r dyfodol yn cael ei adolygu . Diweddariad ar ymgynghori a threfniadau cyfathrebu allanol yn cael ei baratoi. | |
| | 12.4 | Paratoi a chyflwyno Strategaeth Gofal Cwsmer | Dirprwy Brif Weithredwr | 2014-15 ymlaen | Mae hyn bellach wedi cael ei datblygu i brosiect y Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer sydd yn brosiect allweddol ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Busnes. Nod y prosiect yw cynhyrchu achos Busnes Llawn erbyn Chwefror 2014 | |
| Yr angen parhaus i adolygu a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithio ac i greu ymwybyddiaeth a sicrhau cydmyffurfiaeth gan swyddogion | 13.1 | Adnabod y trefniadau partneriaeth perthnasol | EWT | Rhagfyr 2013 | Ar waith | |
| | 13.2 | Paratoi arweiniad i staff ac aelodau ar sefydlu a rheoli partneriaethau | EWT | Mawrth 2014 | Wedi cael model ac wedi asesu cwmpas a chytuno'r cynnwys. | |
| | 13.3 | Sefydlu Pwyllgor Sgriwtini newydd wedi ei ganolbwyntio ar Bartneriaethau ac Adfywio | Swyddog Monitro | Ch1 2013 | Yn ei le i'r Cyngor newydd | ✓ |
| | 13.4 | Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Cynlluniau Dirprwyo a rhannau eraill y Cyfansoddiad | Gweler uchod / Swyddog Monitro | 2013/14 | Yn rhan o'r rhaglen waith i ddiweddaru'r Cyfansoddiad. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 13.5 | Adolygu a diweddaru'r Cyfansoddiad o ran partneriaethau a gweithio ar y cyd | Swyddog Monitro | Mawrth 2014 | Yn dilyn o 13.1/13.2 | |
| | 13.6 | Cyflwyno Polisi a Strategaeth Gomisiynu | Fel 2.3 uchod | Fel 2.3 uchod | Fel 2.3 uchod | |
| Yr angen i reoli adroddiadau gan archwilio allanol a rheoleiddwyr eraill ar sail gorfforaethol gan sicrhau ymateb priodol | 14.1 | Cyflwyno system ar gyfer adnabod gwaith y Rheoleiddwyr ar draws y Cyngor | [Dirprwy Brif Weithredwr] | Mawrth 2014 | Gwelliannau wedi eu gwneud yn 2012. Dechreuodd trafodaethau ar ffurfioli a dogfennu'r trefniadau. | |
| | 14.2 | Cyflwyno cofrestr o argymhellion Rheoleiddwyr gan sicrhau monitro cynnydd yn gyson efo'r drefn ar gyfer argymhellion archwilio mewnol | [Dirprwy Brif Weithredwr] | Mawrth 2014 | Gwelliannau wedi eu gwneud yn 2012. Dechreuodd trafodaethau ar ffurfioli a dogfennu'r trefniadau. | |
| | 14.3 | Cyflwyno Grŵp Swyddogion i adolygu a chynnig sylwadau ar raglenni'r Rheoleiddwyr a'r cynnydd ar y gweithredu a gytunwyd | [Dirprwy Brif Weithredwr] | Mawrth 2014 | Gwelliannau wedi eu gwneud yn 2012. Dechreuodd trafodaethau ar ffurfioli a dogfennu'r trefniadau. | |
| Ni does gan y Cyngor Gynllun Parhad Busnes na Chynllun Adfer TGC cyflawn ac wedi eu cytuno'n ffurfiol | 15.1 | Creu Cynlluniau Parhad Busnes i'r Gwasanaethau | EWT | 2014/15 | Prosiect yn cael ei ddiffinio er mwyn symud ymlaen o fewn y strwythur rheoli newydd. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 15.2 | Datblygu Cynllun Adfer Drafft TGC i'w gytuno | Rheolwr Gwasanaeth TGCh | 2014/15 | Prif brosiect yn cael ei ddiffinio fel rhan o'r prosiect corfforaethol. Cynnydd wedi ei wneud ar eitemau blaenoriaeth uchel o ddiogelu cyflenwad pŵer i offer allweddol; cytuno trefniadau ymateb staff; ddiogelu llinellau cyfathrebu, trefniadau dyblygu gwybodaeth oddi ar y safle. | |
| Angen i Gryfhau Gosod Targedau | 16.1 | Sicrhau bod gosod targedau yn cefnogi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor, wedi'i gysylltu'n realistig ag adnoddau, a'i fod yn defnyddio data meincnodi a thueddiadau i ddilysu. | [Dirprwy Brif Weithredwr] | Mawrth 2014 | Mae'r trefniadau Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad yn cael eu haddasu er mwyn gallu herio gwell a mwy gwybodus gan swyddogion ac aelodau - yn parhau i adolygu effeithiolrwydd | |
| Angen cryfhau'r prosesau Hawlio Grant | 17.1 | Cwblhau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Grantiau | Cydlynydd grantiau | Fel yn y cynllun gweithredu | Cynnydd da yn cael ei wneud : Gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mai wedi cael derbyniad da; Protocol Grantiau wedi ei ddrafftio ar gyfer adolygu; adolygiad Archwilio Mewnol o brosesau grantiau bron wedi'i gwblhau - bydd cyfarwyddiadau grantiau diwygiedig yn dilyn. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Archwilio Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru | 18.1 | Ystyried canlyniad Adroddiad Sgriwtini Cenedlaethol SAC a chreu cynllun gweithredu | Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth )/ Pennaeth Gwasanaetha u Democrataidd | Mawrth 2014 | Mae adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Tachwedd a chynhelir cynhadledd ar y cyd ar 28 Tachwedd . Bydd cynigion ar gyfer gwella yn cael ei lunio yn seiliedig ar yr adroddiad a'r gynhadledd genedlaethol . | |
| Capasiti a Gallu yn y Gwasanaethau Corfforaethol | 19.1 | Gwaith i'w wneud i gryfhau capasiti corfforaethol, yn arbennig o gwmpas TGCh, caffael, rheoli asedau a gwybodaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Mawrth 2014 | Cynnydd i'w adolygu yn dilyn cwblhau adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth a phenodi i swyddi newydd. | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODIAD:** | **ADOLYGIAD O BENODIAD AELOD ANNIBYNNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH – ADNODDAU** |
| **GWEITHRED:** | **AR GYFER PENDERFYNIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Mesur Awdurdod Lleol (Cymru) 2011 yn cynnwys yr angen am y tro cyntaf i Bwyllgor Archwilio awdurdod lleol gynnwys oleiaf un aelod annibynnol o fis Mai 2012.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi eu ddiwygio yn unol â hynny. Mae'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y canlynol yn nhermau aelodaeth o'r Pwyllgor:

*3.4.8.3.3 – Mae'r aelod(au) cyfetholedig, nad yw'n aelod o'r Cyngor, am gael eu recriwtio ar gyfer eu sgiliau sy'n addas a phriodol i waith Pwyllgor Archwilio, ac am gael eu hapwyntio gan aelod o'r Pwyllgor Archwilio ar dermau penodedig wedi'u bennu ganddynt, pan fo'r penodiad yn cael ei wneud.*

1.3 Yn ystod Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 26ain o Fai 2011 penderfynwyd mai dau berson oedd am gael eu recriwtio i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio ar sail di dâl. Yn ystod y Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar 24ain o Fai 2012 fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi argymelliadau'r Panel Pwyllgor Archwilio i benodi dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

1.4 Anfonwyd llythyrau penodiad at y ddau Aelod Annibynnol llwyddiannus Gorffennaf 20fed 2012 yn datgan mai dwy flynedd fyddai cyfnod y swydd yn dechrau ar 1af o Orffennaf 2012. Mynychod y ddau Aelod Annibynnol presennol eu cyfarfod cyntaf Gorffennaf 24 2012.

## 2. ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU

2.1 Oherwydd yr amser fydd angen ar gyfer y broses o ddethol Aelodau Annibynnol, teimlwyd ei fod yn hwylusach ymgymryd ag adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer Aelodau Annibynnol ac i dderbyn penderfyniad y Pwyllgor ar gyfarfod â gofynion Mesur Awdurdod Lleol (Cymru) 2011 o Fehefin 30ain 2014.

2.2 Gofynir i'r Pwyllgor ystyried y tri opsiwn canlynol ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o Gorffennaf 2014 ymlaen:

1) Ymestyn y trefniadau cyfredol gyda'r Aelodau Annibynnol presennol am gyfnod o ddwy flynedd ymhellach o fis Gorffennaf 2014 ymlaen;

2) Ymgymryd ag ymarfer recriwtio i ddewis dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o fis Gorffennaf 2014 am gyfnod o bedair blynedd - Aelodau Annibynnol presennol yn gymwys ar gyfer eu hail ddethol;

3) Ymgymryd ag ymarfer recriwtio i ddewis dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o o fis Gorffennaf 2014 am gyfnod o bedair blynedd - Aelodau Annibynnol presennol yn anghymwys ar gyfer eu hail ddethol.

Opsiwn 2) & 3) i gynnwys newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor gyda'r effaith y bydd y broses dethol yn cael ei chynnal bob pedair blynedd ar gyfer dethol hyd at ddau Aelod Annibynnol ac y bydd pob Aelod Annibynnol ond yn gwasanaethu am gyfnod o uchafswm o bedair blynedd yn unig.

2.3 Wrth gwrs, gall y Pwyllgor benderfynu ar ddull arall o ddarparu Aelodaeth Annibynnol gyfredol yn y cyfarfodydd o fis Gorffennaf 2014 ymlaen.

Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **ADRODDIAD GWAITH AR ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2013 – 30 TACHWEDD 2013** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLYDD ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **D/B** |

## 1. INTRODUCTION

**1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013-14 i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2013 ac fe'i dderbyniwyd. Cynhyrchwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, y Swyddog Adran 151 ac yn sgil amryw o gyfarfodydd a chyfathrebiadau gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Mae'r adroddiad isod yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Tachwedd 2013 a'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf.

**1.3** Bydd angen adolygiad dilyn-i-fyny ar gyfer yr holl adroddiadau terfynol a dderbyniodd farn 'Sicrwydd Coch'. Bydd yr adolygiad hwnnw yn cynnwys barn archwilio ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig yn yr adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-Fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Roedd un adolygiad yn y cyfnod a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Mae crynodebau gweithredol ar gyfer adroddiadau 'Sicrwydd Coch' i'w gweld mewn atodiadau lle mae hynny'n berthnasol.

**1.5** Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae modd gwneud hynny, ond gall hefyd ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaeth Allweddol, Adolygiad Sefydliad neu Adolygiad Ymgynghorol os gwelir bod y rheini'n fwy priodol.

**1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, yn gyfrinachol ar gais i'r Rheolwr Archwilio.

## 2. ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD ERS YR ADRODDIAD DIWEDDARU DIWETHAF

**Rhestrir isod yr Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol a gyhoeddwyd ers yr adroddiad cynnydd diwethaf i'r Pwyllgor ynghyd â chrynodeb o ganlyniadau pob adolygiad.**

**2.1.1 Credydwyr - COCH**

Mae'r Crynodeb Gweithredol ar gyfer yr adroddiad hwn, gan gynnwys y casgliad cyffredinol a'r canfyddiadau allweddol, ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad B.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio COCH gyda 6 o argymhellion lefel Uchel, 11 o argymhellion Canolig a 6 o argymhellion lefel Isel yn cael eu gwneud.

**2.1.2 Prif System Gyfrifo - COCH AMBR**

Cynhaliwyd archwiliad o'r Prif System Gyfrifo - CIVICA fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14.

Cafodd yr adolygiad ei gynnwys yn y cynllun archwilio blynyddol i bwrpas sicrwydd archwilio mewnol ac allanol ar gyfer uwch reolwyr yn yr adran Gyllid. Cynhelir yr adolygiad bob blwyddyn ac yn yr adolygiad a gynhaliwyd yn ystod 2012/13 cafwyd barn sicrwydd Gwyrdd.

Disodlwyd y system FinanceLink gan system lejer CIVICA yn Ebrill 2013 a hwn yw'r adolygiad cyntaf felly o'r system CIVICA. Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân ar weithredu'r system CIVICA yn ystod Ebrill 2013.

Defnyddiwyd prif gasgliadau'r adolygiad hwn i asesu'r lefel sicrwydd a oedd yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Roedd y casgliadau hynny'n cynnwys:

- Mae yna drywydd archwilio ar gyfer trafodion o fewn y lejer cyffredinol; fodd bynnag nid oes trywydd archwilio ar gyfer rhyngwynebau oherwydd defnyddir ID cyffredinol, sef 'CIVICA USER'.
- Roedd diffyg rheolaeth mewn perthynas â chyfyngu mynediad i fathau penodol o ddyddlyfrau ac ar gyfer rhoi dyddlyfrau i mewn;
- Nid oedd unrhyw drefniadau gwirio ar gyfer dogfennau cefnogol a doedd dim rhaid cymeradwyo cofnodion mewn dyddlyfrau cyn eu rhoi i mewn yn y system;
- Nid oedd unrhyw weithdrefn na chanllawiau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer gweithredu'r system CIVICA a'r rheolaethau cysylltiedig er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ariannol y Cyngor yn parhau i redeg yn effeithiol ac yn ddiogel o fewn y system ariannol CIVICA newydd;
- Roedd diffyg rheolaeth dros y terfynau a'r eithriadau mewn perthynas â chyhoeddi sieciau maniwal ac ar gyfer eu cofnodi ar y system CIVICA.
- Nid oedd unrhyw drywydd archwilio'n cael ei gynnal ar gyfer defnyddwyr newydd nac ar gyfer newidiadau i hawliau mynediad defnyddwyr cyfredol ar y system CIVICA;
- Roedd y gweithdrefnau wrth gefn ac adfer yn cael eu hadolygu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Nid yw'r 'back ups' yn cael eu cynnal yn ddigon pell oddi ar y safle i fod yn cydymffurfio ag arferion gorau.

**Barn:** Cafwyd barn archwilio COCH/AMBR o'r adolygiad gydag 1 argymhelliad lefel Uchel, 6 argymhelliad lefel Canolig a 9 argymhelliad lefel Isel yn cael eu gwneud.

**2.1.3 Rheoli Gwastraff - GWYRDD**

Archwiliwyd Rheoli Gwastraff fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14. Mae'r awdurdod wedi contractio allan ei

wasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu ynghyd a'r swyddogaeth glanhau strydoedd, i Verdant Group Plc (via Biffa) o 01 Ebrill 2007 am gyfnod o 14 mlynedd. Darperir y gwasanaeth hwn i dros 30,000 o aelwydydd ar yr ynys ar hyn o bryd.

Mae'r ffi ar gyfer y contract yn cael ei gweithio allan bob blwyddyn yn seiliedig ar fynegai'r diwydiant a gyhoeddir ym mis Medi bob blwyddyn a'r taliadau sydd wedi eu nodi ar yr atodlen prisio contract. Yn 2012/13 roedd y ffi sefydlog flynyddol yn £1.77m ac yn £1.78m ar gyfer 2013/14. Mae elfennau amrywiadwy eraill hefyd yn daladwy dan y contract yn seiliedig ar nifer yr eitemau/casgliadau a wneir. Roedd gwerth anfonebau amrywiadwy a dalwyd yn 2012/13 yn £223k.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio GWYRDD gyda 3 argymhelliad categori Canolig ac 1 argymhelliad categori Isel yn cael eu gwneud.

**2.1.4 MENTER ATAL TWYLL CENEDLAETHOL 2012 - GWYRDD/AMBR (NFI)**

Cynhaliwyd archwiliad o'r 'Menter Atal Twyll Genedlaethol - Cyfatebu Data 2012' fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Mae gofyn i'r Cyngor gymryd rhan yn y broses Cyfatebu Data ac yn 2012 roedd hynny'n cynnwys data personol a gadwyd yn y setiau data isod: Cyflogau, Credydwyr, Hanes Talu a Data Sefydlog, Rhenti Tai, Budd-dal Tai, Myfyrwyr sy'n Gymwys am Fenthyciad, Trigolion Cartrefi Gofal a Gefnogir yn Breifat, Hawlenni a Thocynnau Trafnidiaeth, Bathodynnau Glas, Hawlwyr Yswiriant, Trwyddedau - Masnachwyr Mewn Marchnadoedd, Gyrwyr Tacsi, Trwyddedau Personol i werthu alcohol a Hawl i Brynu.

Y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol neu'r swyddog cyfatebol yn yr awdurdodau yw'r "swyddog cyfrifol" ar gyfer darparu'r data sydd ei angen ar gyfer cyfatebu data a sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Diogelu Data 1998. I bwrpas yr ymarfer yn 2012 y "swyddog cyfrifol" yn y Cyngor oedd y Pennaeth Gwasanaeth – Cyllid. "Swyddog cyfrifol" y Cyngor ar hyn o bryd yw'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

Roedd prif gasgliadau'r adolygiad a oedd yn bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd gyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys:

- Nid oedd rhai o ffurflenni'r Cyngor a ddefnyddiwyd i bwrpas casglu data personol yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Côd Arferion Cyfatebu Data gan nad oeddent yn cynnwys Rhybuddion Prosesu Teg sy'n rhoi gwybod i bobl y gellid defnyddio eu data i ddibenion cyfatebu data ac er mwyn atal a dod o hyd i dwyll.
- Nid yw rhai o ffurflenni'r Cyngor a ddefnyddir i bwrpas casglu data personol yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion Deddf Diogelu Data 1998 oherwydd nad ydynt yn cwrdd â'r egwyddor gyntaf mewn perthynas â diogelu data, sef bod raid i'r holl ffurflenni a ddefnyddir i gasglu data personol gynnwys cyfeiriad at y Ddeddf ei hun a nodi pwy yw'r rheolydd data; rhaid cyfeirio hefyd at bwrpas defnyddio'r data ac at unrhyw wybodaeth bellach sydd raid wrthi i sicrhau bod y prosesu'n deg.
- Methodd y Cyngor â chwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer cadarnhau cydymffurfiaeth gyda gofynion hysbysu NFI 2012 ynghylch prosesu teg.
- Methodd y Cyngor â chwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer llwytho ei setiau data i wefan ddiogel NFI 2012.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio GWYRDD/AMBR gyda 6 o argymhellion categori Canolig yn cael eu gwneud.

**2.1.5 Bathodynnau Glas - GWYRDD**

Mae'r cynllun Bathodynnau Glas yn gynllun parcio cenedlaethol i bobl gydag anableddau p'un a ydynt yn gyrru neu yn teithio mewn cerbyd. Nod y cynllun yw cynorthwyo pobl gydag anableddau i barcio yn agos i'r lle maent yn dymuno mynd.

Mae meini prawf cymhwyster ar gyfer derbyn Bathodynnau Glas. Ar 1 Ebrill 2012 gwnaed newidiadau i'r cynllun Bathodynnau Glas fel eu bod ar gael yn rhad ac am ddim i'r rheini oedd yn gymwys i'w derbyn. Gall sefydliadau sy'n gofalu am bobl gydag anableddau wneud cais am Fathodyn Glas hefyd. Fodd bynnag, rhaid talu ffi o £10 amdanynt o 1 Ebrill 2012. Nid yw Bathodyn Glas ond yn ddilys am dair blynedd ac ar ôl hynny mae angen gwneud cais arall.

Nid yw'r Awdurdod yn gyfrifol am argraffu na dosbarthu Bathodynnau Glas. Gwneir hyn gan Northgate Information Solutions ar ran y Cyngor fel rhan o Gynllun Cenedlaethol diwygiedig.

Mae'r Awdurdod wedi derbyn £9 287 gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun ym mlwyddyn ariannol 2012/13 a defnyddiwyd £7 595 ohono i brynu Bathodynnau Glas, gan wario'r gweddill ar brynu offer TG arbenigol (sganio) i hwyluso prosesu Bathodynnau Glas.

Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben ac nid oes cyllid ar gael ar gyfer 2013/14 a'r tu draw i hynny. Mae'r Awdurdod wedi dyrannu £9 550 o gyllideb 2013/14 ar gyfer Bathodynnau Glas.

Prif gasgliad yr adolygiad hwn oedd y gellid gwella'r rheolaethau trwy roi rhestr i Swyddogion Traffig o'r holl Fathodynnau Glas nad ydynt wedi cael eu dychwelyd ac y gwyddys bod eu perchenogion bellach wedi marw, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r Bathodynnau'n cael eu camddefnyddio.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio GWYRDD gydag 1 argymhelliad categori Canolig a 3 categori Isel.

### 2.1.6 <u>Canolfan Hamdden David Hughes - GWYRDD</u>

Cynhaliwyd archwiliad o Ganolfan Hamdden David Hughes fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14.

Mae Canolfan Hamdden David Hughes yn un o 4 Canolfan Hamdden a reolir gan y Cyngor yn Ynys Môn. Mae'n darparu cyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant i'r cyhoedd. Ymwelodd 33,469 o bobl â'r Ganolfan Hamdden yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13.

**Barn:** Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd gyda 2 o argymhellion categori Canolig a 6 argymhelliad categori Isel yn cael eu gwneud.

### 2.1.7 <u>Trefniadau Atal Twyll</u>

Cynhaliwyd archwiliad o'r 'Trefniadau Atal Twyll' i ganfod a chofnodi y prosesau yn eu lle ar gyn o bryd a dynodi unrhyw fylchau yn y fframwaith atal twill gyfredol.

Gwnaed yr adolygiad yma ar ffurf hunan asesiad o ymarferion a gweithdrefnau'r Cyngor yn erbyn yr ymarfer gorau sydd wedi'i gynnwys o fewn Atodiad 2 o gyhoeddiad y Comisiwn Archwilio: 'Protecting the Public Purse' - rhestr wirio ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am y drefn lywodrethol. Defnyddiwyd y rhest wirio yma gan nad oes ei chywerth ar gael hyd yma gan Lywodraeth Cymru.

Cafwyd rhai meysydd lle nad yw gweithdrefnau ac ymarferiadau cyfredol yn llawn cydymffurfio â gofynion ymarfer gorau perthnasol Atodiad 2 – 'rhestr wirio ar gyfer

y rhai sy'n gyfrifol am y drefn lywodraethol' y Comisiwn Archwilio – 'Protecting the Public Purse.'

Cyhoeddwyd yr adroddiad i'r ddau swyddog gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros y Polisi Atall Twyll a Llygredd (Swyddog 151 a'r Swyddog Monitro) i ystyried manteision a gwrth-fanteision diwygio trefniadau gwrth dwyll y Cyngor i 'w hunioni'n well gydag ymarferiad gorau a'r risgiau o beidio gwenud hynny.

**Barn:** Adolygiad Ymgynghorol oedd hwn ac felly ni roddwyd barn archwilio ffurfiol.

**2.1.8 <u>Taliadau Asiantaeth - YMGYNGHOROL</u>**

Yn dilyn cais gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau ar gyfer penderfynu statws cyflogaeth gweithwyr asiantaeth, masnachwyr sengl a chontractwyr.

Prif gasgliad yr adolygiad oedd nad oedd cyfrifoldeb am benderfynu statws cyflogaeth wedi ei ddynodi'n ffurfiol i weithwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac nad oedd statws cyflogaeth yn cael ei asesu pan fo gweithwyr yn cael eu cyflogi.

Adolygiad Ymgynghorol oedd hwn ac felly ni roddwyd barn archwilio ffurfiol.

**2.1.9 <u>Adolygiad Dilyn-i-Fyny ar gyfer Ysgolion - 'Cynnydd Anfoddhaol'</u>**

Fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14, rydym wedi cynnal adolygiad i ystyried cynnydd a wnaed gan ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn o ran gweithredu argymhellion categori Uchel a Chanolig a wnaed gan yr adain Archwilio Mewnol.

Ymwelodd yr Archwiliwr â phob un o'r ysgolion perthnasol a chyfweld y Penaethiaid a oedd yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion er mwyn penderfynu statws y camau y cytunwyd arnynt. Lle'r oedd hynny'n briodol cwblhawyd profion archwilio i asesu lefel y gydymffurfiaeth gyda'r statws hwn a'r trefniadau rheoli sydd wedi eu sefydlu.

O'r 75 o argymhellion a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn roedd 2 ohonynt yn rhai categori Uchel a 73 yn rhai categori Canolig. O'r argymhellion a wnaed, gwelwyd nad oedd 47% wedi eu gweithredu; roedd 30% wedi eu gweithredu; roedd 19% yn y broses o gael eu gweithredu ac roedd 4% wedi eu disodli gan argymhellion eraill. Roedd cyfanswm o 66% o'r argymhellion, dwy ran o dair ohonynt, heb gael eu gweithredu'n llawn ar adeg ein hadolygiad.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad felly bod yr ysgolion perthnasol wedi gwneud 'cynydd anfoddhaol' o ran gweithredu argymhellion gan yr adain Archwilio Mewnol. Mae peidio ag ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i adroddiadau gan reoleiddwyr, gan gynnwys gan yr adain Archwilio Mewnol, yn cynyddu'r risg y bydd gwendidau mewn rheolaeth yn parhau.

**2.1.10 <u>Adolygid Thematig Ysgolion - YMGYNGHOROL</u>**


Cyhoeddwyd i'r Gwasanaeth Addysg adolygiad thematig o faterion ddaeth i sylw o ganlyniad i waith Archwilio Mewnol waned yn yr ysgolion yn ystod 2012/13 a 2013/14 hyd yma. Canlyniad yr archwiliad oedd bod yna ddiffyg canllawiau ariannol a hyfforddiant i benaethiaid a staff gyda chyfrifoldeb gweinyddu systemau ariannol. Gwnaed argymhellion i fynd i'r afael â hyn yn yr adroddiad archwilio.

**2.1.11 <u>Archwiliad o Reolaethau Allweddol yn yr Ysgolion – Cyllid a Llywodraethu</u>**

Cwblhawyd adroddiad terfynol ar waith archwilio a wnaed mewn un ysgol yn ystod y cyfnod. Canlyniad yr adolygiad oedd barn archwilio Gwyrdd/Ambr. Gwnaed argymhellion i unioni'r gwendidau a nodwyd mewn rheolaethau mewnol ac fe'u cyflwynwyd i sylw'r Pennaeth perthnasol.

**2.2 Crynodeb o Ganlyniadau Adroddiadau a gyhoeddwyd hyd yma -** ers 1 Ebrill 2013 rydym wedi cyhoeddi 10 o adroddiadau terfynol o Gynllun Archwilio Mewnol 2012-13; 22 o gynllun archwilio 2013-14 a 3 adroddiad cyfeirio. Hyd yma mae 32 o adroddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi yn 2013/14.

Mae crynodeb o raddfeydd a roddwyd yn yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae'r crynodeb o'r graddfeydd a gyhoeddwyd fel a ganlyn:




## 3 BALENRAGLEN WAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

| Teitl yr Adolygiad a Drefnwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Gweithdrefnau TAW | Cyllid | Adroddir mis Rhagfyr |
| Grantiau – Cydymffurfiaeth | Cyllid | Adroddir mis Rhagfyr |
| Grantiau Troi Tai'n Gartrefi | Tai | Adroddir mis Rhagfyr |
| Cyflogres | Cyllid | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |
| Dyledwyr Amrywiol | Cyllid | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |
| Y Dreth Gyngor | Cyllid | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Cyllid | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |
| Digartrefedd | Tai | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |
| Derbyn Arian | Cyllid | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| Y Weithdrefn Cwynion Corfforaethol | Corfforaethol | Trefnwyd ar gyfer Rhagfyr 2013 |
| Trefniadau Goramser ac Oriau Hyblyg | Corfforaethol | I'w drefnu |
| Dau Archwiliad ysgol *(Caergeliog a Bodorgan)* | Addysg | Cychwynnwyd Tachwedd 2013 |

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol a bydd rhai'n cael eu cofnodi mewn Nodiadau Ffeil (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

4.2 Cyhoeddwyd nifer o nodiiadau ffeil yn y cyfnod hyd yma yn 2013/14. Nid yw unrhyw waith a arweiniodd at Nodyn Ffeil wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu anghysondeb.

4.3 Fel y dywedwyd yn y Pwyllgor Archwilio diwethaf mae un cyfeiriad o 2012/13 wedi ei drosglwyddo i sylw'r Heddlu. Ymwelodd dau heddwas â'r Adain Archwilio Mewnol yn ystod mis Tachwedd i ddilyn i fyny ar fanylion y cyfeiriad. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad yr achos hwn gyda hyn.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion a wnaed ers 01-04-2011 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.

5.2 Mae'r perfformiad o ran gweithredu'r holl argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed, gyda 53% o argymhellion categori 'Uchel' a 'Chanolig' wedi eu gweithredu. Mae'r perfformiad mewn perthynas ag argymhellion ac eithrio argymhellion Addysg yn 71%. (Ffigyrau fel ar 22-11-13).

5.3 Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

## 6. PRYDERON ARCHWILIO CYFREDOL

6.1 Pryderon yw'r rhain sydd wedi dod i sylw yn ystod gwaith archwilio mewnol a wnaed eisoes ac sydd heb gael sylw, ynghyd â phryderon sydd wedi codi yn sgil y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

- **Parhad Busnes** – Mae camau a argymhellir i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn wedi eu casglu ynghyd o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd, gan gynnwys yr Adain Archwilio Mewnol, ac maent wedi eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth.

- **Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor yn y broses o ddatblygu ei Fframwaith Rheoli Risg a gwreiddio trefniadau rheoli risg yn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei datblygu ac mae cyfundrefn o adrodd yn rheolaidd yn mynd i gael ei weithredu.

- **Rheoli Gwybvodaeth** – Cynhaliodd yr Adain Archwilio Mewnol dri adolygiad yn 2012-13 yn y meysydd Rheoli Cofnodion Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes ac adroddwyd ar wendidau sylweddol yn y meysydd hyn. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi cynnal adolygiad o'r maes hwn ac wedi nodi materion tebyg a gwendidau rheolaeth. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen i roi ar waith y Cynllun Gweithredu o adroddiad y Comisiynydd Gwybodaeth.

- **Llywodraethu** - Unwaith eto nodwyd materion mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau corfforaethol allweddol yn 2012-13, er enghraifft mewn perthynas â gweithdrefnau caffael corfforaethol. Darganfu'r adolygiad hefyd mai defnydd cyfyngedig a wnaed o system y Cyngor ar gyfer cymeradwyo polisïau'n electronig sy'n cofnodi bod defnyddwyr wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth bolisïau. Heb gofnod o'r fath mae'n anodd dangos bod polisïau wedi eu dosbarthu'n ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad mewn perthynas â'r materion hyn yn 2011-12, ond mae nifer o'r argymhellion allweddol yn parhau heb eu gweithredu ar ddiwedd 2012/13.

- **Gweithredu Argymhellion ar gyfer Ysgolion** – Mae gweithredu argymhellion a wnaed gan yr adain archwilio mewnol ar gyfer ysgolion yn parhau i fod yn destun pryder. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a llywodraethu o fewn ysgolion a dylent fod o bryder i'r Penaethiaid ac i'r Adran Addysg.

- **Argymhellion Categori Uchel nad ydynt wedi eu Gweithredu** - Cofnodwyd bod argymhellion categori Uchel heb eu gweithredu yn y meysydd adolygu isod:

    - **Diogelwch Data 1787.12/13** – Cyhoeddwyd: Medi 2012 – Noddwr yr adroddiad: – Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth – Pwnc: Cael gwared ar wastraff cyfrinachol yn ddiogel; Statws cyfredol – wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu gan y Bwrdd Rhaglen Rheoli Gwybodaeth.

    - **Rheoli Cofnodiadau Modern 1808.12/13** – Cyhoeddwyd: Hydref 2012 – Noddwr yr adroddiad: – Y Pennaeth Hamdden a Diwylliant ar y pryd; Pwnc: - Angen am Bolisi Rheoli Cofnodiadau Modern a rhoi'r gorau i ddefnyddio Ysgol y Graig; Statws cyfredol – wedi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu gan y Bwrdd Rhaglen Rheoli Gwybodaeth.

    - **Adnoddau Dynol - 'Amdanaf i' (MY VIEW) 1866.13/14** – Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2013 – Noddwyr yr adroddiad: Rheolydd AD a'r Pennaeth Swyddogaeth– Adnoddau; Pwnc: Diffyg gwahanu dyletswyddau rhwng y sefydliad a chyflogau mewn rhai meysydd yn y system: Statws cyfredol: Mae Cyllid ac AD yn cydgysylltu ynghylch gweinyddu'r system a grwpiau mynediad ar y system Northgate i sicrhau bod rhaniad digonol rhwng mynediad i bwrpas diwygio cofnodiadau sefydliad a mynediad er mwyn diwygio manylion cyflogau.

- **Caffael Corfforaethol 1825.12/13** – Cyhoeddwyd: Rhagfyr2012 – Noddwr yr adroddiad – Y Pennaeth Gwasanaeth Cyllid ar y pryd - Pwnc: diffyg fframwaith digonol; angen diweddaru Rheolau Gweithdrefn Contractiau a Rheolau Gweithdrefn Ariannol; Angen hyfforddiant i Lofnodwyr Awdurdodedig ar y Rheolau Gweithdrefn Contract a Rheolau Gweithdrefn Ariannol; Statws cyfredol; - Mae'r Tim Caffael yn gweithio gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru ar Reolau Gweithredn Contractau.

- **Parhad Busnes 1812.12/13** – Cyhoeddwyd: Medi 2012: Noddwyr yr adroddiad: Pennaeth Cynllunio a'r Rheolydd TGCh; Pwnc: diffyg Polisi Adfer Ôl-drychineb TGCh yn unol ag ISO 27002 ar gyfer diogelwch gwybodaeth ac angen diffinio rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Parhad Busnes; Statws cyfredol: Mae adroddiad drafft Cynllun Adfer Ôl-drychineb TGCh yn cael ei integreiddio gyda'r trefniadau datblygol Parhad Busnes. Mae grwp wedi ei sefydlu i edrych yn ffurfiol ar Barhad Busness yn gorfforaethol.

- **Costau Cynhaliaeth mewn Gwestai 1746.11/12**; Cyhoeddwyd: Medi 2011; Noddwyr yr adroddiad; Pennaeth Proffesiwn AD a Rheolydd Archwilio; Pwnc: - Angen cyflwyno Polisi Teithio a Chynhaliaeth diwygiedig yn arbennig mewn perthynas â thaliadau cynhaliaeth a wnaed trwy'r System Gredydwyr a thrwy Gerdyn Caffael Corfforaethol ar gyfer y staff sydd angen P11D; Yr Adain Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad o gydymffurfiaeth gyda'r polisi diwygiedig chwe mis ar ôl ei weithredu; Statws cyfredol: Mae'r diweddariad i'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth wedi'i gyfuno ag Arfarnu Swyddi yn nhermau cytundeb gyda'r Undebau ac mae nawr yn dibynnu ar raddfa amser Arfarnu Swyddi.

- **Taliadau Uniongyrchol 1883.13/14**: Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2013 - Noddwr yr adroddiad; Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Oedolion; Pwnc: Dylid adolygu Cynlluniau Gofal o leiaf bob blwyddyn ac erbyn y dyddiad a nodir ar y Cynllun Gofal ar gyfer yr 'adolygiad nesaf' i sicrhau bod yr asesiad o anghenion gofal yn parhau i gwrdd ag anghenion y defnyddiwr; darparu tystiolaeth o wiriadau CRB ar gyfer staff a gyflogir fel gofalwyr gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth; Statws cyfredol: Yn dilyn cyngor cyfreithiol, mae gweithdrefnau yn awr wedi eu diwygio i sicrhau bod gwiriadau CRB yn cael eu cyflawni lle'n briodol.


- **Polisïau Corfforaethol - Adolygiad Thematig 1761.11/12**:Cyhoeddwyd: Ionawr2012: Noddwr yr adroddiad; Prif Weithredwr - wedi ei ddirprwyo wedyn i'r Pennaeth Polisi; Pwnc: diffyg cydymffurfiaeth yn gyffredinol gyda pholisiau corfforaethol allweddol; angen creu rhestr o bolisiau corfforaethol allweddol, awduron, dyddiadau diwygio ac ati; dylid ychwnaegu Polisiau Gwasanaeth a Chorfforaethol Allwedol at y system 4Policy er mwyn rhoi tystiolaeth bod y gynulleidfa darged wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth y polisiau perthnasol; Statws cyfredol; Mae'r broses yn parhau i gael ei datblyygu o fewn yr Uned Bolisi.

**RHEOLYDD ARCHWILIO**
**03 RHAGFYR 2013**

**ATODIAD A**

**Tabl Tracio Argymhellion –Dim yn cynnwys Addysg Argymhellion Uchel a Chanolig a wnaed ers 01-04-2011** **Tabl Cynnydd:** % o argymhellion categori uchel a chanolig sydd wedi eu gweithredu / heb eu gweithredu fesul gwasanaeth lle gwnaed dros 10 o argymhellion ac eithrio Addysg; y cyfanswm ar ddiwedd y cyfnod oedd **71%** argymhellion o'r fath.

Yn ein barn ni felly, ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd digonol'** yn y cyfnod o ran gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol sydd wedi eu categoreddio'n rhai Uchel neu Ganolig.



**ATODIAD A**

**CRYNODEB GWEITHREDOL O ADRODDIADAU SICRWYDD COCH**

**CREDYDWYR –**

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1.1 RHAGARWEINIAD

Cynhaliwyd archwiliad o Daliadau Credydwyr fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14. Archwiliwyd 2 fodiwl mewn perthynas â thaliadau credydwyr, sef y modiwl Prynu sy'n caniatáu i archebion gael eu codi a'u hawdurdodi a'r modiwl Credydwyr sy'n caniatáu i'r anfoneb gael ei sganio a'i phrosesu ar gyfer taliad.

Y modiwl Prynu hefyd yw'r prif gyswllt rhwng y sawl sy'n codi'r archeb a'r sawl sy'n ei chymeradwyo. Mae cyswllt yn cynnwys sefydlu credydwyr, cymeradwyo credydwyr, codi archebion a'u cymeradwyo. Er bod y ddwy system yn integredig, rhaid eu sefydlu ar wahân (e.e. mae defnyddwyr yn cael eu sefydlu ddwy waith). Cawsom ar ddeall fod y manylion o'r ddwy system, gan gynnwys lefelau cymeradwyo ac ati, yn wahanol mewn rhai achosion oherwydd hyn. Roedd yn aneglur ar adeg cynnal yr adolygiad sut yr oedd hyn wedi digwydd oherwydd roedd gan y Cyngor yn wreiddiol un rhestr o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer awdurdodi archebion a thaliadau, fodd bynnag, mae gwahanol lefelau wedi cael eu defnyddio mewn rhai achosion ar gyfer credydwyr, prynu a chodi archebion (ar gyfer y sawl sydd ag awdurdod i gymeradwyo yn unig).

Mae'r system yn caniatáu i'r sawl sydd ag awdurdod i godi archeb am unrhyw swm, rhaid i'r sawl sy'n cymeradwyo awdurdodi'r cais am archeb cyn y bydd archeb swyddogol yn cael ei chreu ar y system. Bydd y sawl sydd wedi gofyn am yr archeb yn derbyn e-bost i gadarnhau bod y sawl sydd ag awdurdod wedi cymeradwyo'r cais a bydd archeb ynghlwm y gellir ei hargraffu ar gyfer y cyflenwr.

Unwaith y bydd y Cyngor yn derbyn anfoneb, caiff ei hanfon i'r Credwyr ar gyfer ei sganio neu, os cafodd ei derbyn drwy e-bost, i'w hargraffu cyn ei sganio. Unwaith y bydd yr anfoneb wedi cael ei sganio, mae'r system yn awtomatig yn rhoi'r wybodaeth yn y blychau iawn fel y gellir talu'r anfoneb yn awtomatig drwy'r system. Gwelwyd bod rhai adrannau'n derbyn eu hanfonebion eu hunain a bod hynny'n gallu achosi oedi gyda thaliad oherwydd bod rhaid eu hanfon i'r Credydwyr. Bwriedir sefydlu Blwch PO ar gyfer holl anfonebau'r Cyngor fel bod Credydwyr yn gallu eu derbyn yn uniongyrchol drwy'r blwch hwnnw.

